

**CÔD YMARFER
STATUDOL
AR Y DDYLETSWYDD
I HYBU
CYDRADDOLDEB
HILIOL**

COMISIWN
CYDRADDOLDEB
HILIOL



Cynnwys

Rhagair gan Gurbux Singh, Cadeirydd y CRE	1
Geirfa	2

Rhan I

Hybu cydraddoldeb hiliol ym mhob awdurdod cyhoeddus a restrir

1. Cyflwyniad	9
2. Y fframwaith gyfreithlon	12
3. Y ddyletswydd gyffredinol	15

Rhan II

Hybu cydraddoldeb cyfle yn yr awdurdodau cyhoeddus a restrir nad ydynt yn sefydliadau addysgol

4. Dyletswyddau penodol: polisi a gwasanaeth dosbarthu	21
5. Dyletswyddau penodol: cyflogaeth	30

Rhan III

Hybu cydraddoldeb hiliol mewn sefydliadau addysgol

6. Dyletswyddau penodol: sefydliadau addysgol	35
---	----

Rhan IV

Swyddogaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

7. Partneriaeth a gorfodi	49
---------------------------	----

Rhan V

Atodiadau

1. Awdurdodau cyhoeddus a rwymir gan y ddyletswydd gyffredinol	55
2. Awdurdodau cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol	64
3. Awdurdodau cyhoeddus a rwymir gan y ddyletswydd gyflogaeth	66
4. Awdurdodau cyhoeddus a rwymir gan y dyletswyddau i sefydliadau addysgol	72
5. Awdurdodau cyhoeddus yr Alban	73
6. Canllawiau eraill a gyhoeddir gan y CRE	75

Rhagair

Mae'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol yn gyfle ac yn her i sector cyhoeddus Prydain. Gosodwyd y ddyletswydd ar adeg pan fo ein gwasanaethau cyhoeddus yn mynd trwy gyfnod o foderneiddio ar raddfa eang. Mae'r ymgyrch i wella perfformiad, didwylledd ac atebolrwydd yn achosi newidiadau cyflym yn y ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus yn gweithio. Bellach mae'r ddyletswydd newydd yn ychwanegu'r angen am degwch

Ers i'r Adroddiad ar Ymchwiliad Stephen Lawrence gydnabod 'hiliaeth sefydliadol' yn un o brif wasanaethau cyhoeddus Prydain, mae llawer o sefydliadau eisoes wedi adolygu eu polisiau a'u gweithdrefnau ac maent wedi dechrau ar y gwaith hir-dymor o addasu'r ffordd y maent yn gweithio ac yn meddwl. Bydd y ddyletswydd newydd yn helpu awdurdodau cyhoeddus i gael gwared ar wahaniaethu - a'r posibilrwydd o wahaniaethu - o wasanaethau cyhoeddus, ac yn hybu cydraddoldeb hiliol mewn modd cadarnhaol ym mhopeth a wnânt.

Mae'r côd ymarfer statudol hwn yn anelu at helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau. Rydym wedi'i gynllunio i roi arweiniad ymarferol iddynt ar y camau y dylent eu cymryd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil ac i hybu cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da.

Dylech ddarllen y côd hwn ar y cyd â'r canllawiau arfer da anstatudol yr ydym wedi'u cynhyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad cyffredinol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, un ar gyfer ysgolion, un ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, ac arweiniad cyffredinol i fonitro ethnig. Mae'r côd ymarfer statudol, a'r canllawiau arfer da anstatudol, ynghyd â mwy o wybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan (www.cre.gov.uk).

Cyn cyhoeddi'r côd hwn a'r canllawiau yr ydym wedi cynghori'n eang. Rydym yn ddiolchgar am yr amser a roddodd cynifer i wneud sylwadau ar y drafftiau, ac rydym wedi ceisio rhoi sylw i'ch pryderon a'ch sylwadau cyn belled ag roedd hynny'n bosibl. Gobeithiwn y bydd y côd a'r canllawiau o fudd i chi - ac i gydraddoldeb hiliol.

Gurbux Singh
Cadeirydd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Geirfa

YN Y CÔD HWN, Y MAE GAN Y GEIRIAU ISOD YR YSTYR SYDD ODDI TANYNT.

adolygiad barnwrol

cais yn yr Uchel Lys neu Llys Sesiynau'r Alban yn gofyn i'r llys adolygu'r ffordd y bu i awdurdod cyhoeddus a rhai awdurdodau eraill ddod i benderfyniad. Ni fydd y llys yn penderfynu ar deilyngdod y penderfyniad ond ar a ydyw'n gyfreithlon. Gall y llys ofyn i'r awdurdod ailystyried y mater.

ar sail hil

rhesymau hil, lliw, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol.

archwiliad ffurfiol

archwiliad gan y CRE o dan adrannau 49-52 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Gall yr archwiliad fod naill ai yn archwiliad 'person a enwir' neu'n archwiliad cyffredinol.

- Gellir cynnal archwiliad 'person a enwir' os yw'r CRE yn amau bod sefydliad yn gwahaniaethu ar sail hil. Gall y CRE ofyn i'r sefydliad am ddogfennau a gwybodaeth. Os yw'r CRE wedi'i fodloni bod gwahaniaethu anghyfreithlon wedi digwydd, neu ei fod yn digwydd, fe all y CRE gyhoeddi 'hysbysiad anwahaniaethol'.
- Gellir cynnal archwiliad cyffredinol, heb amheuaeth bod gwahaniaethu, er mwyn archwilio arferion o fewn maes gweithgaredd. Gall y CRE wneud argymhellion ar ddiwedd yr archwiliad.

asesu effaith

ffordd systematig o ddarganfod a yw polisi (neu bolisi arfaethedig) yn effeithio ar grwpiau hiliol yn wahanol. Gall hyn gynnwys cael a dadansoddi gwybodaeth, ac ymgynghori â phobl, gan gynnwys staff, am y polisi.

ategol

mae hyn yn cyfeirio at y ffaith bod tair rhan y ddyletswydd gyffredinol yn cefnogi ei gilydd ac y gallant, wrth eu hymarfer, orgyffwrdd. Fodd bynnag, maent yn wahanol, a dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried pob un yn unigol.

atodlen

atodiad i ddeddfwriaeth, megis atodlen 1A i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Mae'r atodlen hon yn rhestru'r holl awdurdodau y mae'r ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol iddynt.

awdurdod cyhoeddus

corff a enwir, a ddiffinnir neu a ddisgrifir yn atodlen 1A i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol neu, yn ddiybennol ar y cyd-destun, corff a enwir, a ddiffinnir neu a ddisgrifir yn un o'r atodlenni i Orchymyn 2001 (Dyletswyddau Statudol) y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

awdurdod cyhoeddus yn yr Alban

awdurdod cyhoeddus na ellir ymarfer ei swyddogaethau ond yn yr Alban, neu mewn perthynas â hi.

awdurdodau heb eu datganoli

awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban y mae Senedd San Steffan yn hytrach na Senedd yr Alban yn parhau'n gyfrifol am eu swyddogaethau a'u pwerau.

caffaeliad cyhoedus

y trefniadau cytundebol neu rai eraill y mae awdurdod cyhoeddus yn eu gwneud i gaffael nwyddau, gweithiau neu wasanaethau gan sefydliad allanol.

côd ymarfer statudol

dogfen fel hon, sy'n cynnig canllawiau ymarferol ar y gyfraith, sydd wedi'i chymeradwyo gan y Senedd, ac sy'n dderbyniol fel tystiolaeth mewn llys barn.

cyhoeddi

rhoi ar gael i'r cyhoedd; er enghraifft trwy gynhyrchu dogfen ysgrifenedig i gael ei dosbarthu.

cymesur

mae hyn yn cyfeirio at y ffaith y dylai'r pwyslais a roddir ar gydraddoldeb hiliol fod gymesur â'i berthynas â swyddogaeth benodol. Mae'r dull hwn o ymdrin ag ef yn golygu rhoi mwy o ystyriaeth ac adnoddau i swyddogaethau a pholisïau sy'n cael yr effaith fwyaf ar y cyhoedd, neu ar gyflogau yr awdurdod.

cynllun cydraddoldeb hiliol

cynllun realistig wedi'i amserlennu, sy'n amlinellu trefniadau'r awdurdod ar gyfer ateb y dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

cynllun gweithredu

cynllun ymarferol a realistig, gydag amserlen a gytunwyd arni, sy'n dangos sut mae awdurdod yn bwriadu ateb ei ddyletswyddau.

Deddf Cysylltiadau Hiliol

y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i newidiwyd gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000.

dyletswydd dyffredinol

y ddyletswydd fel y'i nodir yn adran 71(1) Deddf Cysylltiadau Hiliol (gweler pennawd 3, paragraff 3.1).

dyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol

y ddyletswydd gyffredinol (gweler tudalen 3), oni bai fod y cyd-destun yn awgrymu i'r gwrthwyneb.

dyletswydd benodol

dyletswydd a osodir gan Orchymyn 2001 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol).

dyletswyddau statudol

dyletswyddau, naill ai'n rhai cyffredinol neu'n rhai penodol, y mae'n ofynnol i awdurdod eu hateb.

erledigaeth

cosbi neu drin rhywun yn annheg oherwydd iddo/iddi wneud cŵyn am wahaniaethu ar sail hil, neu credir iddo/iddo wneud cŵyn; neu oherwydd iddo/iddi gefnogi rhywun sydd wedi gwneud cŵyn am wahaniaethu ar sail hil. Diffinnir erledigaeth fel gwahaniaethu anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

gorchmynion

cyfarwyddiadau gweinidogion i orfodi'r gyfraith, neu newid y ffordd y'i cymhwysir.

gorfodol

mae hyn yn golygu bod awdurdodau cyhoeddus dan rwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, ac mae'n rhaid iddynt wneud cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'w swyddogaethau.

grŵp hiliol

grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, eu lliw, eu cenedl, eu cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol.

grwpiau ffocws, grwpiau cyfeirio a rheithgorau dinasyddion

amryw o ddulliau o ymgynghori wyneb-yn-wyneb ag aelodau o'r cyhoedd, defnyddwyr y gwasanaeth, neu eraill.

gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil

mae hyn yn digwydd pan fydd rheol neu amod sy'n cael ei chymhwyso i bawb yn gyfartal:

- ddim ond yn bodloni cyfran lawer llai o bobl o grŵp hiliol penodol;
- yn rhoi'r grŵp hwnnw dan anfantais; ac
- na ellir ei gyfiawnhau ar sail an-hiliol.

Mae'n rhaid i'r tri amod ddigwydd.

gwahaniaethu uniongyrchol

trin un person yn llai ffafriol nag un arall ar sail ei hil (gweler tudalen 2). Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

gweithredu cadarnhaol

gweithredu a ganiateir gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol sy'n caniatáu i berson:

- ddarparu cyfleusterau i ateb anghenion pobl o grwpiau hiliol penodol mewn perthynas â'u hyfforddiant, addysg neu les (adran 35); ac
- i dargedu hyfforddiant swydd at bobl o grwpiau hiliol a dangynrychiolir mewn rhyw faes gwaith, neu eu hannog i geisio am y cyfryw waith (adrannau 37 a 38).

gweithdrefnau asesu perfformiad

gwerthusiadau staff ffurfiol ac anffurfiol sy'n debygol o effeithio datblygiad gyrfa, tâl a buddion.

gweithdrefnau cwyno

trefniadau neu weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, megis cwynion ynglŷn â bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu; neu apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar ddyrchafu neu farciau gwerthuso.

gweithdrefnau disgyblu

y trefniadau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i ddisgyblu staff. Gall y rhain gynnwys mesurau disgyblu anffurfiol a ffurfiol.

hybu cydraddoldeb hiliol

dylai awdurdodau cyhoeddus 'dalw sylw i'r angen', wrth gyflawni eu swyddogaethau, er mwyn:

- mynd i'r afael â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil;
- hybu cydraddoldeb cyfle; a
- hybu cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

hyfforddiant

ystod eang o gyfleoedd datblygu gyrfa, sy'n cynnwys hyfforddiant mewnol anffurfiol yn ogystal â chyrsgiau mwy ffurfiol.

monitro

y broses o gasglu, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, i fesur perfformiad, cynnydd neu newid.

monitro ethnig

y broses a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi gwybodaeth ynghylch cefndir ethnig pobl.

penodiadau cyhoeddus

penodiadau i fyrddau cyrff cyhoeddus. Mae'r rhain yn gyrff sy'n cymryd rhan yn y broses o lywodraethu'n genedlaethol, ond sy'n gweithredu hyd braich o'r llywodraeth.

perthnasedd

mae hyn yn cyfeirio at y ffaith y bydd cydraddoldeb hiliol yn fwy perthnasol i rai swyddogaethau cyhoeddus nag i eraill. Mae perthnasedd yn ymwneud ag i ba raddau y mae polisi'n effeithio ar bobl, fel aelodau o'r cyhoedd, ac fel rhai sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod.

polisi cydraddoldeb hiliol

datganiad ysgrifenedig o bolisi sefydliad addysgol ar gydraddoldeb hiliol, a weithredir ac a fonitir.

polisïau

penderfyniadau ffurfiol ac anffurfiol ynghylch sut mae awdurdod cyhoeddus yn cyflawni'i ddyletswyddau ac yn ymarfer ei bwerau.

sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch

corff llywodraethol sefydliad yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch (fel y'u diffinnir yn adrannau 91(3) a 91(5) y Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992).

swyddogaethau

ystod cyflawn dyletswyddau a phwerau awdurdod cyhoeddus.

swyddogaethau cyhoeddus

swyddogaethau sy'n effeithio, neu sy'n debygol o effeithio, ar y cyhoedd neu ar ran o'r cyhoedd. Er mai dim ond y llysoedd sy'n gallu penderfynu ar hyn, fel arfer ni fyddai swyddogaethau cyhoeddus yn cynnwys rheolaeth fewnol neu faterion cytundebol megis cyflogi staff; prynu nwyddau, gweithiau neu wasanaethau; neu brynu neu werthu eiddo. Defnyddir y term hwn i gyfeirio at yr awdurdodau hynny sydd dan rwymedigaeth mewn perthynas â'u swyddogaethau cyhoeddus yn unig (er enghraifft cyrff proffesiynol cynrychioladol, megis Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, neu awdurdodau darlledu).

ymgyngori

gofyn am farn staff, cydweithwyr, defnyddwyr gwasanaethau, neu'r cyhoedd yn gyffredinol, ar bolisïau neu wasanaethau. Mae amgylchiadau gwahanol yn gofyn am fathau gwahanol o ymgynghori. Er enghraifft, mae ymgynghori'n cynnwys cyfarfodydd, grwpiau ffocws, grwpiau cyfeirio, rheithgorau dinasyddion, arolygon, a holiaduron.

ysgol

corff llywodraethol sefydliad addysgol sy'n cael ei gynnal gan awdurdod addysg leol yng Nghymru a Lloegr, neu gorff llywodraethol coleg technegol dinas, coleg dinas am dechnoleg y celfyddydau, neu athrofa dinas.



Rhan

*Hybu cydraddoldeb
hiliol ym mhob
awdurdod
cyhoeddus a restrir*

1

Hybu cydraddoldeb hiliol Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn gosod dyletswydd gyffredinol (gweler yr eirfa) ar ystod eang o awdurdodau cyhoeddus i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod rhaid i awdurdodau (a restrir yn atodiad 1 y côd hwn) barchu'r angen i:
 - a. gael gwared ar wahaniaethu ar sail hil;
 - b. hybu cydraddoldeb cyfle; a
 - c. hybu cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.
- 1.2 Mae'r rhwymedigaeth hon ar y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus. Mae llawer ohonynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar raddfa eang, megis addysg ac iechyd. Mae'r rhwymedigaeth hon ar rai ohonynt (er enghraifft cyrff sy'n cynrychioli proffesiynau, megis Coleg Brenhinol y Llawfeddygon neu awdurdodau darlledu) mor belled ag y maent yn ymarfer swyddogaethau cyhoeddus (gweler yr eirfa).
- 1.3 Nod y ddyletswydd yw sicrhau bod hybu cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus yn gweithio. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r awdurdodau hyn fod yn gallu defnyddio eu trefniadau presennol – megis y rhai ar gyfer gwneud polisi – i ateb gofynion y ddyletswydd. Dylai hyn fod o help i osgoi unrhyw waith diangen neu unrhyw ddyblygu gwaith.

Buddion y ddyletswydd

- 1.4 Bydd y ddyletswydd yn helpu awdurdodau cyhoeddus i wneud cynnydd parhaus tuag at sicrhau cydraddoldeb hiliol. O ran datblygu polisi a chyflenwi gwasanaethau, bydd y ddyletswydd yn:
 - a. annog gwneuthurwyr polisi i fod yn fwy ymwybodol o broblemau posibl;
 - b. cyfrannu at wneud penderfyniadau mwy gwybodus;
 - c. sicrhau fod polisiau yn cael eu targedu'n gywir;
 - ch. gwella gallu'r awdurdod i gyflenwi gwasanaethau addas a hygyrch sy'n ateb anghenion gwahanol;
 - d. annog rhagor o ddiwylledd ynghylch gwneud polisiau;
 - dd. cynyddu hygredded mewn gwasanaethau cyhoeddus; yn enwedig ymysg cymunedau lleiafrifol ethnig;
 - e. helpu i ddatblygu arfer da; a
 - f. helpu i osgoi honiadau o wahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil.

- 1.5 Bydd dyletswydd awdurdodau cyhoeddus i hybu cydraddoldeb hiliol mewn cyflogaeth yn:
- helpu i wneud gweithlu'r awdurdod yn fwy cynrychioladol o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu;
 - denu staff galluog;
 - osgoi colli neu beidio â pharchu staff galluog;
 - gwella hyder a chynhyrchiant staff;
 - gwella'r ffordd y rheolir staff;
 - helpu i ddatblygu arfer da; a
 - helpu i osgoi honiadau o wahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail hil.

Pwrpas y côd

- 1.6 Gall awdurdodau cyhoeddus benderfynu sut y byddant yn cyflenwi eu rhwymedigaeth/dyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn rhoi i'r CRE y pŵer i gyhoeddi codau ymarfer, gyda chydysyniad y Senedd.
- 1.7 Mae'r côd hwn yn cynnig arweiniad ymarferol ar sut y dylai awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae'n cynnwys arweiniad ar y ddyletswydd gyffredinol (gweler 1.1) a'r dyletswyddau penodol a osodir gan yr Ysgrifennydd Cartref. Amcan y côd yw helpu awdurdodau cyhoeddus i fabwysiadu arfer da ac i gael gwared ar wahaniaethu ar sail hil. Dylai'r côd hefyd helpu'r cyhoedd i ddeall yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ei wneud, a beth mae'r cyhoedd yn gallu ei wneud.
- 1.8 Daeth y dyletswyddau penodol a osodwyd trwy orchymyn yr Ysgrifennydd Cartref i rym ar **3 Rhagfyr 2001**. Roedd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus a oedd wedi'u rhwymo gan y dyletswyddau hyn (gweler atodiad 2, 3 a 4), fod â chynlluniau realistig wedi'u hamserlennu'n gywir erbyn **31 Mai 2002**.
- 1.9 Mae'r côd hwn yn berthnasol i awdurdodau yng Nghymru a Lloegr (gweler atodiad 1) ac i awdurdodau 'heb eu datganoli' yn yr Alban (gweler yr eirfa ac atodiad 1). Mae pennod 6 y côd hwn yn berthnasol i gyrff llywodraethol sefydliadau addysgol yng Nghymru a Lloegr. Bydd y Côd Ymarfer ar gyfer yr Alban yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban (gweler yr eirfa).

Natur y côd

- 1.10 Côd 'statudol' yw'r côd ymarfer hwn. Mae hyn yn golygu iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd. Mae hefyd yn golygu bod y côd hwn yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw weithrediad cyfreithiol, a dylai llys neu dribiwnlys ei gymryd i ystyriaeth. Ar ei ben ei hun, nid yw'r côd hwn yn gosod dim rhwymedigaethau ar gyrff cyhoeddus. Nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith, gan mai dim ond llysoedd sy'n gallu rhoi hyn. Os na fydd awdurdod cyhoeddus yn dilyn canllawiau'r côd, efallai y bydd rhaid iddo ddangos sut y bu iddo gyflawni ei rwymedigaethau o ran dyletswyddau cyffredinol a dyletswyddau penodol.

Sut i ddefnyddio'r côd hwn

- 1.11 Mae'r côd hwn wedi'i rannu yn bum rhan, saith pennod a chwe atodiad.
- a. Mae rhan I (penodau 2 a 3) yn berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus wedi'i restru gan gynnwys ysgolion, a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.
 - b. Mae rhan II (penodau 4 a 5) erthygl II yn ymwneud â hybu cydraddoldeb hiliol mewn rhai awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn sefydliadau addysgol.
 - c. Mae rhan III (pennod 6) yn ymwneud â hybu cydraddoldeb hiliol mewn sefydliadau addysgol.
 - ch. Mae rhan IV (pennod 7) yn ymwneud â swyddogaeth y CRE, gan gynnwys gorfodi'r côd hwn.
 - d. Mae rhan V (atodiadau 1 i 6) yn rhestru'r awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u rhwymo gan y ddyletswydd gyffredinol (atodiad 1), yr awdurdodau cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol (atodiad 2), yr awdurdodau cyhoeddus a rwymir gan y ddyletswydd gyflogi (atodiad 3), yr awdurdodau cyhoeddus a rwymir gan y dyletswyddau ar gyfer sefydliadau addysgol (atodiad 4), awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban (atodiad 5), a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan y CRE (atodiad 6).

2

Hybu cydraddoldeb hiliol **Y fframwaith gyfreithlon**

- 2.1 Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (gweler yr eirfa) yn diffinio gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac erledigaeth (gweler yr eirfa am y termau hyn). Mae'n gwneud gwahaniaethu ar sail hil mewn cyflogaeth, hyfforddiant, addysg, tai, penodiadau cyhoeddus, a darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, yn anghyfreithlon. Daeth Deddf (diwygio) Cysylltiadau Hiliol 2000 i rym ar 2 Ebrill 2001 ac ers hynny mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (y Ddeddf) wedi cynnwys pob un o swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus (ar wahân i ychydig o eithriadau).
- 2.2 Mae adran 71(1) y Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus a restrir (gweler atodiad 1). Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchmynion yn rhoi dyletswyddau penodol ar bob un neu ar rai o'r awdurdodau hyn (adran 71(2)). Mae gan weinidogion yn yr Alban bwerau tebyg dros awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban (adran 71B(1); gweler yr eirfa). O dan y Gorchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol), daeth y dyletswyddau penodol a drafodir yn y côd hwn i rym ar **3 Rhagfyr 2001**.
- 2.3 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau gorfodi i'r CRE dros y dyletswyddau penodol a osodir gan yr Ysgrifennydd Cartref a gweinidogion yr Alban. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r CRE i gyhoeddi codau ymarfer sy'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut y gall awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd gyffredinol (gweler pennod 3) a'u dyletswyddau benodol (gweler penodau 4, 5 a 6). Mae hwn yn gôd statudol, a gyhoeddwyd at y pwrpas hwn.

Y ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol

- 2.4 Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus a restrir yn atodlen 1A i'r Ddeddf (gweler atodiad 1). Nod y ddyletswydd yw sicrhau bod hybu cydraddoldeb hiliol yn ganolog i waith yr awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir.

Dyletswyddau penodol i hybu cydraddoldeb hiliol

- 2.5 Gosodwyd dyletswyddau penodol ar rai awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus pwysig. Mae'r dyletswyddau'n ymwneud â gwneud trefniadau a fydd yn helpu'r awdurdodau hyn i gyflawni eu dyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol.

- a. Mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn atodiad 2 baratoi a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol. Dylai'r cynllun hwn nodi'r 'swyddogaethau' neu 'bolisiau' (gweler yr eirfa am y termau hyn) sy'n berthnasol i gyflawni eu dyletswydd cyffredinol, a'r trefniadau a fydd yn helpu i gyflawni'r ddyletswydd o ran cyflawni gwasanaethau a pholisi (gweler pennod 4).
 - b. Mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn atodiad 3 fonitro eu gweithdrefnau ac arferion cyflogi (gweler pennod 5). Mae'n rhaid i rai o'r awdurdodau hyn gynhyrchu cynllun cydraddoldeb hiliol. Efallai y byddai'n fuddiol i'r awdurdodau hyn gynnwys yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol y trefniadau a wnânt i gyflawni eu dyletswyddau cyflogi.
 - c. Mae'n rhaid i'r sefydliadau addysgol a restrir yn atodiad 4 baratoi polisi cydraddoldeb hiliol a sefydlu trefniadau i gyflawni eu dyletswyddau penodol ar bolisi a chyflogi (gweler pennod 6).
- 2.6 Dylai awdurdodau cyhoeddus sy'n sefydlu trefniadau effeithiol, yn unol â'r dyletswyddau penodol, fod yn gallu dangos eu bod yn ateb y ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol. Dylai gweithredu i hybu cydraddoldeb hiliol roi i awdurdodau'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i ddangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- 2.7 Mae penodau 4, 5 a 6 yn rhoi arweiniad ar y dyletswyddau penodol.

Atebolrwydd o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol

- 2.8 Mae awdurdodau cyhoeddus yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol a phenodol. O fewn pob awdurdod cyhoeddus, bydd grwpiau neu unigolion yn gyfrifol am hyn a nhw sy'n atebol (yn gyfrifol yn gyfreithiol) am weithredoedd yr awdurdod neu am ei fethiant i weithredu.

Sefydliadau preifat neu wirfoddol sy'n cyflawni swyddogaethau awdurdod cyhoeddus

- 2.9 Pan fo gan awdurdod cyhoeddus gontract neu gytundeb arall gyda chwmni preifat neu sefydliad gwirfoddol i gyflawni rhai o'i swyddogaethau (gweler yr eirfa), ac mae'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol yn berthnasol i'r swyddogaethau hefyd, mae'r awdurdod cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny. Dylai'r awdurdod felly ystyried y trefniadau y bydd eu hangen arno. Os yw dyletswyddau cydraddoldeb hiliol yr awdurdod yn berthnasol i'r swyddogaethau y mae'n contractio i eraill, gall fod yn briodol cynnwys y dyletswyddau hynny ymhlith y gofynion perfformio ar gyfer y gwasanaeth. Er enghraifft, gellir ei gwneud yn ofynnol i gontractwr fonitro defnyddwyr gwasanaethau a'u grŵp hiliol, i sicrhau

bod yr awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau. Ni fyddai hyn yn ymwneud â gofynion ynghylch ymarferion mewnol y contractwr. Pa bynnag camau y mae'r awdurdod yn eu cymryd, mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r fframwaith polisi a chyfreithiol ar gyfer caffaeliad cyhoeddus.

- 2.10 Yn ogystal â'r gofynion am unrhyw ddyletswydd gyffredinol ac unrhyw ddyletswyddau penodol, gall awdurdodau cyhoeddus hybu cydraddoldeb hiliol trwy annog contractwyr i lunio polisiau a fydd yn eu helpu (y contractwyr) i osgoi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, ac i hybu cydraddoldeb cyfle. Dylai'r cyfryw anogaeth ddigwydd o fewn fframwaith wirfoddol yn unig, unwaith y rhoddir y contract, yn hytrach na thrwy wneud gofynion penodol neu amodau'n rhan o'r broses ddethol. Dylai awdurdodau cyhoeddus gadw mewn cof nad yw'r ddyletswydd gyffredinol yn drech na chyfreithiau a rheoliadau eraill sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus. Yn benodol, fel a nodir uchod, mae'n rhaid i unrhyw weithredu gan yr Awdurdod fod yn gyson â'r polisi a'r fframwaith.

Partneriaeth

- 2.11 Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried eu dyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol – ac unrhyw ddyletswyddau penodol – pan fyddant yn gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol eraill. Nid oes rhwymedigaeth debyg ar bartneriaethau yn y sector preifat neu'r sector gwirfoddol.
- 2.12 Erys awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â gwaith partneriaeth gydag awdurdodau cyhoeddus, neu gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol, yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswydd cyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol, ac am unrhyw ddyletswyddau penodol.
- 2.13 Yn ymarferol, bydd yn rhaid i awdurdod cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth geisio cytundeb ei bartneriaid am drefniadau cynllunio, cyllido a rheoli gwaith ar y cyd er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb hiliol statudol.

Arolygu neu archwilio awdurdodau cyhoeddus

- 2.14 Mae rhwymedigaeth ar asiantaethau sy'n archwilio neu'n arolygu awdurdodau cyhoeddus i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae'n rhaid i'r asiantaethau hyn ystyried sut mae'r ddyletswydd hon yn cyd-fynd â'u rhwymedigaethau archwilio neu arolygu. Gan amlaf, dylai cyrff archwilio neu arolygu fod yn gallu defnyddio eu trefniadau archwilio presennol i hybu cydraddoldeb hiliol.

3

Hybu cydraddoldeb hiliol

Y ddyletswydd gyffredinol

- 3.1 Mae'r bennod hon yn esbonio'r hyn gall awdurdodau cyhoeddus ei wneud i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol. Nodir y ddyletswydd hon yn adran 71(1) y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (y Ddeddf) ac mae'n berthnasol i bob awdurdod sector cyhoeddus a restrir yn atodlen 1A i'r Ddeddf (gweler atodiad 1 y côd hwn). Mae adran 71(1) yn dweud:

Bydd pob corff neu berson arall a nodir yn Atodlen 1A neu sy'n ateb disgrifiad sy'n dod o fewn yr atodlen honno, wrth gyflawni ei swyddogaeth, yn talu sylw priodol i'r angen

a) i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon; a

b) hybu cyfleon cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol. *

Egwyddorion sylfaenol

- 3.2 Dylai pedair egwyddor fod wrth wraidd ymdrechion awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol.
- Mae'n orfodol i bob awdurdod cyhoeddus a restrir yn atodlen 1A i'r Ddeddf (gweler atodiad 1) hybu cydraddoldeb hiliol.
 - Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu dyletswyddau i hybu cydraddoldeb hiliol ym mhob un o'r swyddogaethau perthnasol.
 - Dylai'r pwyslais a roddir ar gydraddoldeb hiliol fod gymesur â'i pherthnasedd.
 - Mae elfennau'r ddyletswydd yn ategol i'w gilydd (sy'n golygu bod eu hangen i gyd i gyflawni'r holl ddyletswydd).

'Gorfodol'

- 3.3 Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus a restrir yn atodlen 1A i'r Ddeddf wneud cydraddoldeb yn ganolog i'w swyddogaethau (megis cynllunio, gwneud polisi, darparu gwasanaethau, rheoleiddio, archwilio, gorfodi, a chyflogi). Nid yw'r ddyletswydd gyffredinol yn dweud wrth awdurdodau cyhoeddus sut i wneud eu gwaith, ond mae'n disgwyl iddynt asesu a yw cydraddoldeb hiliol yn berthnasol i'w swyddogaethau. Os yw, fe ddylai'r awdurdod wneud popeth y gallai i gyflawni'r ddyletswydd honno. Dylai'r ddyletswydd fod yn greiddiol i holl bolisiau ac ymarferion, a dylai annog gwelliant. Nid yw o reidrwydd yn gyfrifoldeb newydd i'r awdurdod, yn hytrach mae'n ffordd fwy effeithiol o wneud yr hyn y mae'n ei wneud eisoes.

* Ar gyfer swyddogaeth mewnfudo a chenedligrwydd, nid yw'r ddyletswydd gyffredinol yn cynnwys y geiriau 'cyfleon cyfartal a' (adran 71A(1)).

'Perthnasol'

- 3.4 Bydd cyfraith cydraddoldeb hiliol yn fwy perthnasol i rai swyddogaethau nag i rai eraill. Mae perthnasedd yn ymwneud â faint o effaith y mae swyddogaeth yn ei gael ar bobl, fel aelodau o'r cyhoedd neu fel cyflogedigion yr awdurdod. Er enghraifft, efallai y bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod cydraddoldeb hiliol yn fwy perthnasol i godi safonau addysgol nag ydyw i waith ar gynnal y ffordd fawr. Dylai awdurdodau cyhoeddus felly asesu a yw cydraddoldeb hiliol yn berthnasol i bob un o'i swyddogaethau ac os ydyw pryd mae hynny'n wir. Gall awdurdod cyhoeddus benderfynu nad yw'r ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol i rai o'i swyddogaethau; er enghraifft rhai sy'n hollol dechnegol, megis rheoli traffig neu ragolygon y tywydd.

'Cymesur'

- 3.5 O dan adran 71(1) y Ddeddf, disgwylir i awdurdodau cyhoeddus dalu 'sylv priodol' i dair rhan y ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol (gweler 1.1). Golyga hyn y dylai'r pwyslais a roddir ar gydraddoldeb hiliol fod gymesur â swyddogaeth benodol. Yn ymarferol, mae'r dull hwn o ymdrin ag ef yn gallu golygu y rhoddir mwy o ystyriaeth ac adnoddau i swyddogaethau a pholisïau sy'n cael yr effaith fwyaf ar y cyhoedd, neu ar gyflogedigion yr awdurdod. Dylai'r awdurdod ystyried a yw polisïau'n gallu effeithio ar grwpiau hiliol gwahanol mewn ffyrdd gwahanol, ac a fydd y polisïau'n hybu cysylltiadau hiliol da.
- 3.6 Nid yw 'sylv priodol' yn golygu bod cydraddoldeb hiliol yn llai pwysig pan fydd y boblogaeth ethnig yn fach. Hefyd, nid yw'n dderbyniol i awdurdod cyhoeddus fynnu nad oes ganddo ddigon o adnoddau i ateb y ddyletswydd. Mae hyn yn wir oherwydd bod ateb y ddyletswydd gyffredinol yn ofyniad statudol. Yn ymarferol, golyga hyn y dylai awdurdodau cyhoeddus adeiladu ar waith a wnaethpwyd ganddynt eisoes i hybu cydraddoldeb hiliol, ac adeiladu arno, gan ddefnyddio systemau a phrosesau gweinyddu gan addasu eu cynlluniau a blaenoriaethau, lle bo angen gwahanol, ac a fydd y polisïau'n hybu cysylltiadau hiliol da.
- 3.7 Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ddyletswydd barhaus. Gall yr hyn y mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud i'w ateb newid gyda threigl amser wrth i swyddogaethau neu bolisïau newid, neu wrth i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu newid.

'Ategol'

- 3.8 Mae tair rhan i'r ddyletswydd gyffredinol:
- cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon;
 - hybu cydraddoldeb cyfle; a
 - hybu cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.
- 3.9 Mae'r tair rhan hyn yn cefnogi ei gilydd. Ac, yn ymarferol, gallant orgyffwrdd (er enghraifft, gall hybu cydraddoldeb cyfle rwystro neu gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, a hybu cysylltiadau hiliol da). Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y tair rhan yn wahanol, ac ni fydd sicrhau un ohonynt o reidrwydd yn arwain at sicrhau y tair ohonynt. Er enghraifft, gall polisi cydraddoldeb cyfle nad yw'n cael ei esbonio'n glir wrth ei gyflwyno, wella cydraddoldeb cyfle, ond gall hefyd niweidio cysylltiadau hiliol a chreu dicter os nad yw'r staff yn gwybod sut mae o fudd i bawb.

- 3.10 Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried a delio â phob un o dair rhan y ddyletswydd gyffredinol.

Sut i ateb y ddyletswydd gyffredinol

- 3.11 Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried y pedwar cam canlynol i ateb y ddyletswydd gyffredinol.
- Nodi pa rai o'u swyddogaethau a pholisïau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd, neu mewn geiriau eraill, pa rai sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o bobl.
 - Rhestru'r swyddogaethau a pholisïau yn nhrefn blaenoriaeth, yn seiliedig ar ba mor berthnasol ydynt i gydraddoldeb hiliol.
 - Asesu a yw'r ffordd y cyflawnir y swyddogaethau a'r polisïau 'perthnasol' hyn yn ateb tair rhan y ddyletswydd.
 - Ystyried a oes angen gwneud newidiadau er mwyn ateb y ddyletswydd, a gwneud y newidiadau.

Cydnabod swyddogaethau perthnasol

- 3.12 Er mwyn nodi'r swyddogaethau perthnasol, bydd yn fuddiol, yn gyntaf, i awdurdod cyhoeddus wneud rhestr o'i holl swyddogaethau, gan gynnwys cyflogaeth. Dylai wedyn asesu pa mor berthnasol yw pob swyddogaeth i bob rhan o'r ddyletswydd gyffredinol. Fel y nodir ym mharagraff 3.4, y mae'n bosib nad yw rhai swyddogaethau, oherwydd eu natur, yn berthnasol neu bod eu perthynas yn gyfyngedig.
- 3.13 Dylai awdurdod cyhoeddus ystyried gosod blaenoriaethau, a rhoi blaenoriaeth i'r swyddogaethau hynny sy'n fwy perthnasol i gydraddoldeb hiliol.

Asesu effaith ac ystyried newid

- 3.14 Er mwyn asesu effaith ei swyddogaethau a'i bolisïau ar gydraddoldeb hiliol, efallai y bydd yn fuddiol i'r awdurdod lunio datganiad clir o nodau pob swyddogaeth neu bolisi. Dylid wedyn ystyried a oes ganddo wybodaeth ynglŷn â sut mae'r swyddogaeth neu bolisi'n effeithio ar grwpiau hiliol gwahanol, fel cyflogedigion neu ddefnyddwyr gwasanaethau (neu fel defnyddwyr posibl gwasanaethau). Dylai'r awdurdod hefyd ystyried a yw ei swyddogaethau a'i bolisïau'n hybu cysylltiadau hiliol da. Gall yr awdurdod gael y wybodaeth hon o amrywiaeth o ffynonellau; er enghraifft ymchwil flaenorol, cofnodion o gwynion, arolygon, neu gyfarfodydd lleol. Dylai'r dulliau hyn helpu awdurdodau cyhoeddus i ddarganfod pa grwpiau hiliol sy'n defnyddio pa rai o'u gwasanaethau, neu'r hyn y mae pobl wahanol yn ei feddwl o'u gwasanaethau, ac a ydynt yn cael eu darparu mewn modd teg i bobl o grwpiau hiliol gwahanol. Dylai'r math hwn o dystiolaeth helpu'r awdurdodau cyhoeddus i benderfynu beth mae'n rhaid iddynt ei wneud, o bosibl, i ateb tair rhan y ddyletswydd gyffredinol.
- 3.15 Mae'n bosib hefyd y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried addasu eu systemau gwybodaeth presennol er mwyn darparu mwy o wybodaeth am grwpiau hiliol gwahanol ac i ddangos sut mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd ar gydraddoldeb hiliol.

- 3.16 Er mwyn asesu effeithiau polisi, neu'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau, gallai awdurdodau cyhoeddus ofyn y cwestiynau canlynol hyn iddynt eu hunain.
- a. A allai'r polisi neu'r ffordd y gweithredir y swyddogaeth gael effaith andwyol ar gyfleoedd i rai grwpiau hiliol? Mewn geiriau eraill, a yw'n rhoi rhai grwpiau hiliol o dan anfantais?
 - b. A allai'r polisi neu'r ffordd y gweithredir y swyddogaeth gael effaith andwyol ar y berthynas rhwng grwpiau hiliol gwahanol?
 - c. Os oes effaith andwyol, a oes modd ei osgoi? A ellir ystyried ei bod yn wahaniaethu anghyfreithlon? A ellir ei gyfiawnhau trwy gyfeirio at y nodau a phwysigrwydd y polisi neu'r swyddogaeth? A oes ffyrdd eraill y gellir gwireddu nodau'r awdurdod heb achosi effaith andwyol ar rai grwpiau hiliol?
 - ch. A ellir lleihau'r effaith andwyol trwy gymryd camau penodol?
 - d. A oes angen rhagor o ymchwil neu ragor o ymgynghori? A fyddai'r ymchwil hwn gymesur â phwysigrwydd y polisi neu swyddogaeth? A yw'n debygol o arwain at ganlyniad gwahanol?
- 3.17 Os yw'r asesiad yn awgrymu y dylid addasu'r polisi, neu'r ffordd y gweithredir y swyddogaeth, fe ddylai'r awdurdod wneud hyn.

II

Rhan

*Hybu cydraddoldeb cyfle
mewn awdurdodau
cyhoeddus a restrir ar
wahân i sefydliadau
addysgol*

Awdurdodau cyhoeddus – dyletswyddau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol

	Wedi'u rhwymo gan y ddyletswydd gyffredinol	Wedi'u rhwymo gan y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol	Wedi'u rhwymo gan y ddyletswydd gyflogaeth	Wedi'u rhwymo gan y dyletswyddau ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
	ATODIAD 1	ATODIAD 2	ATODIAD 3	ATODIAD 4
Adrannau'r Llywodraeth, llywodraeth leol, yr heddlu, iechyd, cyrff rheoliadol, asiantaethau cynghori, a chomisiynau	✓	✓	✓	
Cyrff cyhoeddus anadrannol (NDPBs), e.e. cynghorau ymchwil, asiantaethau a chomisiynau eraill	✓		✓	
Pwyllgorau a chynghorau ymgynghorol, cynghorau plwyf, a chynghorau cymunedol yng Nghymru	✓			
Cyrff llywodraethol ysgolion	✓			✓
Cyrff llywodraethol sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch	✓			✓

4

Hybu cydraddoldeb cyfle **Dyletswyddau penodol: polisi a gwasanaeth dosbarthu**

Y berthynas rhwng y dyletswyddau gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

- 4.1 Cyflwynwyd y dyletswyddau penodol i helpu awdurdodau cyhoeddus i ateb gofynion y ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol yn gyfrwng i gyrraedd nod - mewn geiriau eraill, camau, dulliau neu drefniadau - yn hytrach nag yn nod ynddynt eu hunain. Ateb gofynion y ddyletswydd gyffredinol yw'r prif nod. Mae hyn yn golygu bod rhaid i awdurdod i ystyried a yw'n ateb gofynion tair rhan y ddyletswydd gyffredinol (gweler 3.8) wrth iddo roi sylw i ddyletswydd penodol. Mae'n rhaid i'r awdurdod ofyn y cwestiwn allweddol hwn bob tro:

'Pa gamau y dylem eu cymryd:

- a. i gael gwared ar wahaniaethu'n anghyfreithlon;
- b. i hybu cydraddoldeb cyfle; ac
- c. i hybu cysylltiadau hiliol da?'

Cynllun cydraddoldeb hiliol

- 4.2 Mae'r bennod hon yn esbonio pa drefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn atodiad 2 eu nodi a'u cyhoeddi fel rhan o gynllun cydraddoldeb hiliol. Nid yw'r trefniadau'n nodau ynddynt eu hunain, ond y cyfryngau sylfaenol angenrheidiol i ateb y ddyletswydd gyffredinol. Bydd rhai awdurdodau cyhoeddus eisoes wedi cymryd camau mawr tuag at sefydlu rhai o'r trefniadau hyn wrth iddynt gyflawni rhai o'u swyddogaethau. Efallai y bydd eraill am fynd ymhellach na'r trefniadau sylfaenol angenrheidiol.
- 4.3 Mae'n bosibl na fydd y trefniadau angenrheidiol yn rhai newydd. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus wedi sefydlu systemau i ateb eu gofynion statudol i gasglu gwybodaeth ar berfformiad, neu drefnu i'w polisiau a'u gwasanaethau gael eu harchwilio gan asiantaethau arolygu neu archwilio annibynnol.
- 4.4 Trwy gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol, y mae'r awdurdod cyhoeddus yn atebol am ei gynigion ar sut i ateb gofynion y rhwymedigaeth/dyletswydd. Mae hyn hefyd yn gyfle i'r awdurdod esbonio'r gwerthoedd, egwyddorion a safonau sy'n llywio'r ffordd y mae'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol.

- 4.5 O dan y ddyletswydd benodol, a ddaeth i rym ar 3 Rhagfyr 2001, roedd yn rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus a restrir gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol erbyn **31 Mai 2002**. Cynllun realistig wedi'i amserlennu yw'r cynllun, ac mae'n nodi trefniadau'r awdurdod ar gyfer ateb y rhwymedigaethau/dyletswyddau penodol a chyffredinol.
- 4.6 Dylai'r cynllun ddangos sut mae'r awdurdod cyhoeddus yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan adran 71(1) y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (y Ddeddf), yn enwedig, cymalau 2(2) a 2(3) Gorchymyn 2001 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol).
2. (2) *Bydd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yn nodi, yn arbennig –*
- (a) *y swyddogaethau a'r polisiau hynny, neu bolisiau arfaethedig, y mae'r person hwnnw wedi'u hasesu fel rhai perthnasol i'r modd y mae'n cyflawni'r ddyletswydd a osodir gan adran 71(1) y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol; a*
 - (b) *threfniadau'r person hwnnw ar gyfer –*
 - (i) *asesu ac ymgynghori ynghylch effaith debygol ei bolisiau arfaethedig ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol*
 - (ii) *monitro ei bolisiau am unrhyw effaith niweidiol ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol;*
 - (iii) *cyhoeddi canlyniadau'r cyfryw asesiadau ac ymgynghoriad ag a grybwyllir amdanynt yn is-baragraff (i) a'r cyfryw fonitro a grybwyllir yn is-baragraff (ii);*
 - (iv) *sicrhau mynediad cyhoeddus i wybodaeth a gwasanaethau y mae'n eu darparu; a*
 - (v) *hyfforddiant staff mewn cysylltiad â'r dyletswyddau a osodir gan adran 71(1) y Ddeddf Cysylltiadau Hilio a'r Gorchymyn hwn.*
- (3) *Bydd y cyfryw berson, o fewn cyfnod o dair blynedd o 31ain Mai 2002, ac o fewn pob cyfnod pellach o dair blynedd, yn adolygu'r asesiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(a).*
- 4.7 Hefyd mae gan bob awdurdod cyhoeddus sy'n gorfod cyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol ddyletswyddau cyflogaeth penodol, a esbonnir ym mhennod 5. Efallai y byddai'n fuddiol i'r awdurdodau hyn gynnwys yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol y trefniadau a wnânt i gyflawni eu dyletswyddau cyflogaeth.
- 4.8 Gall y cynllun cydraddoldeb hiliol fod yn rhan o strategaeth cydraddoldeb ehangach neu gynllun gwella, gyhyd ag y gellir dangos yn hawdd ei fod yn ateb yr holl ofynion statudol ar gyfer y math hwn o gynllun.

Cydnabod swyddogaethau a pholisïau perthnasol

- 4.9 **Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus restru yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol y swyddogaethau a'r polisïau (gan gynnwys eu polisïau arfaethedig) sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol. Dylent adolygu'r rhestr hon o leiaf bob tair blynedd (gweler 4.6).**
- 4.10 Disgrifiwyd eisoes yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer cydnabod swyddogaethau o dan y ddyletswydd gyffredinol (gweler 3.4). Er mwyn penderfynu a yw swyddogaeth neu bolisi yn berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol, dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried a allai'r swyddogaeth neu'r polisi hwnnw effeithio grwpiau hiliol mewn ffyrdd gwahanol neu gael effaith ar gysylltiadau hiliol da. (Gweler yr eirfa am ddiffiniadau o 'swyddogaethau' a 'polisïau').
- 4.11 Er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd, ar gyfer pob swyddogaeth neu bolisi, gall awdurdodau cyhoeddus ofyn:
- a yw pob un o dair rhan y ddyletswydd gyffredinol - cael gwared ar wahaniaethu, hybu cydraddoldeb cyfle, a hybu cysylltiadau hiliol da - yn gymwys ac os felly sut;
 - ar ba grwpiau hiliol y mae'n cael effaith;
 - a oes unrhyw reswm dros gredu ei bod yn effeithio ar bobl, neu y gall effeithio ar bobl, yn wahanol oherwydd eu grŵp hiliol.
- 4.12 Bydd yn ddefnyddiol i awdurdodau cyhoeddus greu rhestr o'u swyddogaethau, ac i asesu perthnasedd y swyddogaethau hyn i'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. Mewn rhai achosion, bydd rhaid i'r asesiad ystyried perthnasedd ac effaith polisïau penodol.
- 4.13 Os nad yw'r awdurdod yn sicr sut y gallai swyddogaeth neu bolisi penodol effeithio cydraddoldeb hiliol, fe allai ystyried bod y swyddogaeth neu'r polisi hwnnw o bosib yn berthnasol o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r awdurdod hefyd ystyried swyddogaethau neu bolisïau newydd nad yw eu heffeithiau wedi cael eu hasesu mewn modd tebyg.
- 4.14 Yn ymarferol, bydd awdurdodau eisïau gwybod pa mor berthnasol yw pob swyddogaeth i'r ddyletswydd gyffredinol. Gallant wedyn roi blaenoriaeth briodol iddo. Gallant ofyn:
- a oes tystiolaeth eisoes bod y swyddogaeth neu'r polisi yn cael effaith wahanol ar rai grwpiau hiliol;
 - a oes gan y cyhoedd bryder fod y swyddogaeth neu'r polisi dan sylw yn achosi gwahaniaethu; ac
 - a oes gan y cyhoedd unrhyw bryder bod y swyddogaeth neu'r polisi yn niweidio cysylltiadau hiliol da.

- 4.15 Gall rhestru swyddogaethau yn ôl blaenoriaeth helpu awdurdodau i drefnu a chynllunio eu gweithredu. Fodd bynnag, i gyflawni telerau'r Ddeddf bydd rhaid iddynt ystyried yr holl swyddogaethau a pholisïau perthnasol. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gynnwys yn y cynllun cydraddoldeb hiliol.

Trefniadau ar gyfer asesu effaith debygol polisiau arfaethedig, ac ymgynghori arnynt

- 4.16 **Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol eu trefniadau ar gyfer asesu ac ymgynghori ar, effaith debygol eu polisiau arfaethedig ar gydraddoldeb hiliol. (gweler 4.6).**
- 4.17 Disgwylir i awdurdodau cyhoeddus nodi eu trefniadau ar gyfer:
- asesu'r effaith debygol a gaiff eu polisiau arfaethedig; gan gynnwys eu trefniadau ar gyfer casglu data;
 - ymgynghori â grwpiau y gall y polisiau hyn effeithio arnynt.
- 4.18 Mae'n bosibl y bydd awdurdodau cyhoeddus yn darganfod y gallant ddefnyddio eu trefniadau presennol i wneud yr asesiadau ac ymgynghoriadau angenrheidiol.

Asesu

- 4.19 Dylai asesu effaith debygol polisi arfaethedig helpu i benderfynu a fydd y polisi hwnnw'n cael effaith wahanol ar rai grwpiau hiliol, ac a fydd yn cyfrannu at gysylltiadau hiliol da. Gall yr asesiad ddefnyddio'r canlynol:
- gwybodaeth sydd eisoes ar gael;
 - darganfyddiadau ymchwil;
 - gwybodaeth am y boblogaeth, gan gynnwys darganfyddiadau'r cyfrifiad;
 - cymariaethau â pholisïau tebyg mewn awdurdodau eraill;
 - canlyniadau arolygon;
 - gwybodaeth ethnig a gesglir mewn camau gwahanol yn y broses (er enghraifft, pan fydd pobl yn gwneud cais am wasanaeth);
 - ymarfer casglu data un waith yn unig; neu
 - ymchwil a gomisiynwyd yn unswydd.

Ymgynghori

- 4.20 Bydd cynghorau cyhoeddus yn ymgynghori â phobl mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Fodd bynnag, bydd awdurdod yn cynyddu hygredd ei wasanaethau ac yn gwella'r ffordd y mae'n datblygu polisi os yw'n defnyddio dulliau ymgynghori eglur ac yn eu hesbonio i'w staff ac i'r cyhoedd.
- 4.21 Gallai awdurdodau cyhoeddus gysylltu â phobl trwy:
- cyfarfodydd ymgynghori;
 - grwpiau ffocws;
 - grwpiau cyfeirio;
 - rheithgorau dinasyddion;
 - archwiliad cyhoeddus; neu
 - holiaduron arolwg.
- 4.22 Pa bynnag ddull a ddefnyddir, dylai awdurdodau cyhoeddus geisio sicrhau:
- eu bod yn defnyddio barn pobl i lunio eu proses gwneud penderfyniadau;
 - bod yr ymarfer yn adlewyrchu barn y rhai y mae'r polisi'n debygol o effeithio arnynt;
 - bod y dull ymgynghori'n addas ar gyfer y pwnc a'r grwpiau sy'n ymwneud ag ef;
 - bod yr ymarfer gymesur ag effaith debygol y polisi;
 - yr esbonnir amcanion yr ymgynghori'n glir;
 - yr amserlennir yr ymgynghoriad yn gywir;
 - y monitrir yr ymgynghoriad;
 - y cyhoeddir darganfyddiadau'r ymgynghoriad.
- 4.23 Os yw'r asesiad neu'r ymgynghoriad yn dangos bod y polisi arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol neu o niweidio cydraddoldeb hiliol, bydd yr awdurdod am ystyried sut mae'n mynd i ateb ei ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. Efallai yr hoffai'r awdurdod ofyn y cwestiynau canlynol iddo'i hunan.
- Os yw un o'n polisiâu'n arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, a allwn ni ddod o hyd i ffordd arall i wireddu ein nodau?
 - Os yw un o'n polisiâu'n effeithio'n andwyol ar bobl o rai grwpiau hiliol penodol, a allwn ei gyfiawnhau oherwydd ei nodau cynhwysfawr? Os ydym yn addasu'r polisi, a allai hynny wneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol?
 - Os bydd yr asesiad neu'r ymgynghoriad yn datgelu bod gan rai grwpiau hiliol anghenion gwahanol, a allwn ni ddiwallu'r anghenion hyn, naill ai o fewn y polisi arfaethedig neu mewn rhyw ffordd arall?

- ch. A allai'r polisi niweidio cysylltiadau hiliol da?
- d. A fydd newidiadau i'r polisi'n rhai mawr, ac a fydd angen ymgynghori o'r newydd?

Trefniadau ar gyfer monitro polisïau am effeithiau andwyol

- 4.24 **Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol eu trefniadau ar gyfer monitro eu polisïau am unrhyw effaith andwyol ar gydraddoldeb hiliol (gweler 4.6).**
- 4.25 Mae gwybod bod polisi'n dwyn ffrwyth yn angenrheidiol i sicrhau nodau'r ddyletswydd gyffredinol. I raddau helaeth, mae cadw golwg ar sut mae polisi'n gweithio, ac a yw'n cael effaith andwyol ar gydraddoldeb hiliol neu'n niweidiol iddo, yn ddibynnol ar system fonitro effeithiol sy'n gyfoes ac yn berthnasol i'r gwaith.
- 4.26 O dan y ddyletswydd hon, fel arfer dylai awdurdodau cyhoeddus amlinellu eu trefniadau ar gyfer monitro'r holl bolisïau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol. Gall y rhain gynnwys ystod eang o bolisïau, megis cyflenwi gwasanaethau, yn ogystal â swyddogaethau gorfodi a rhai rheoliadol, megis trwyddedu neu stopio ac archwilio.
- 4.27 Mae monitro'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus wirio:
 - a. pa effaith y mae eu polisïau'n ei gael ar grwpiau hiliol gwahanol (er enghraifft, pa mor aml a pham mae pobl yn defnyddio gwasanaeth, pa mor aml y byddant yn cwyno a pham, ac a ydynt yn wynebu anfanteision neu'n teimlo na ddiwellir eu hanghenion);
 - b. a yw pobl o bob grŵp yr un mor fodlon ar y ffordd y cânt eu trin;
 - c. a ddarperir gwasanaethau'n effeithiol i bob cymuned; ac
 - ch. a yw gwasanaethau'n addas ac wedi'u cynllunio i ateb anghenion gwahanol (er enghraifft, a ydynt yn cydnabod trafferthion ieithyddol, anghenion diwylliannol unigolion, neu batrymau hir dymor o wahaniaethu neu allgáu).
- 4.28 Dylai trefniadau, neu addasiadau, a wna'r awdurdod fod yn berthnasol i faint yr awdurdod, natur y polisi a'i effaith bosibl ar y cyhoedd, yn enwedig ar grwpiau hiliol gwahanol, gan gynnwys:
 - a. dadansoddiad ystadegol o wybodaeth fonitro ethnig;
 - b. arolygon o foddhad (wedi'u dadansoddi yn ôl y grŵp hiliol y mae'r bobl a holwyd yn perthyn iddo);
 - c. arolygon ar hap neu rai wedi'u targedu;
 - ch. cyfarfodydd, grwpiau ffocws, rheithgorau dinasyddion.

- 4.29 Fe allai trefniadau awdurdod cyhoeddus esbonio beth a wnâi pe bai'r monitro'n dangos bod un neu ragor o'i bolisiau'n cael effaith andwyol ar gydraddoldeb hiliol, a byddai'n rhwystro'r awdurdod rhag cyflawni ei ddyletswydd.
- 4.30 Dylai'r awdurdod ofyn y cwestiynau canlynol.
- Os yw un o'n polisiau'n arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, a allwn ni ddod o hyd i ffordd arall o wireddu ein nodau?
 - Os yw un o'n polisiau'n effeithio'n andwyol ar bobl o rai grwpiau hiliol penodol, a allwn ei gyfiawnhau oherwydd ei nodau cynhwysfawr? Os ydym yn addasu'r polisi, a allai hynny wneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol?
 - Os yw'r polisi'n niweidio cysylltiadau hiliol da, beth ddylem ei wneud?
 - A fydd newidiadau i'r polisi'n rhai pwysig, ac a fydd angen inni ymgynghori yn eu cylch?

Trefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ar asesiadau, ymgynghoriadau a monitro

- 4.31 **Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu cynllun cydraddoldeb hiliol eu trefniadau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau unrhyw asesiadau, ymgynghoriadau a monitro a gynhelir ganddynt i weld a yw eu polisiau'n cael effaith andwyol ar gydraddoldeb hiliol (gweler 4.6).**
- 4.32 Bydd cyhoeddi'r canlyniadau hyn yn cynyddu didwylledd yr awdurdod ac yn caniatáu iddo ddangos ei fod wedi'i ymrwymo i gydraddoldeb hiliol. Yn ei dro, dylai hyn gynyddu hygredd yr awdurdod yng ngolwg y cyhoedd – ymysg pob grŵp hiliol.
- 4.33 Mae'n rhaid i drefniadau cyhoeddi awdurdod fod gymesur â'i faint ac â phwysigrwydd y pwnc.
- 4.34 Dylai'r awdurdod drefnu cynnwys y pwyntiau canlynol wrth gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriadau:
- pam cynhaliwyd yr ymgynghoriad;
 - sut y'i cynhaliwyd;
 - crynodeb o'r ymatebion neu safbwyntiau a gafwyd o'i herwydd;
 - asesiad o'r opsiynau polisi;
 - yr hyn y mae'r awdurdod yn bwriadu ei wneud.
- 4.35 Dylai'r awdurdod nodi yn ei gynllun cydraddoldeb hiliol pa mor aml, ac ym mha ffurf, y cyhoeddir canlyniadau ei asesiadau, ymgynghoriadau a monitro. Dylai trefniadau cyhoeddi'r awdurdod hefyd gymryd i ystyriaeth sut mae'r rhain yn cydfynd â'i ofynion statudol eraill neu â'r galw am wybodaeth gyhoeddedig.

Trefniadau ar gyfer sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth a gwasanaethau

- 4.36 **Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol eu trefniadau ar gyfer sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu (gweler 4.6).**
- 4.37 Er mwyn ateb y ddyletswydd benodol hon, dylai awdurdodau cyhoeddus agor y drws ar wybodaeth a gwasanaethau i bawb. Efallai yr hoffai awdurdodau ystyried y canlynol.
- a. Ystyried mynediad at wybodaeth a gwasanaethau wrth iddynt asesu eu swyddogaethau. Er enghraifft, a oes digon o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd? A yw'r wybodaeth yn hawdd ei defnyddio?
 - b. Os na wneir defnydd llawn o wasanaeth, ystyried a oes gan bobl ddigon o wybodaeth amdano, neu a ydynt yn ansicr y gall y gwasanaeth ateb eu hanghenion penodol mewn modd cydymdeimladol neu'n deg.
 - c. Gofyn a yw gwybodaeth ar gael ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.
 - ch. Cymryd camau i wella'r wybodaeth sydd ar gael.
 - d. Monitro pa mor effeithiol y rhoddir gwybodaeth i'r cyhoedd, a gwneud gwelliannau, lle bo angen.
 - dd. Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol i drin pob cleient yn deg ac yn gyfartal.
- 4.38 Gallai awdurdodau cyhoeddus hefyd ystyried sut gallant wella mynediad y cyhoedd at eu gwasanaethau. Mae ffyrdd posibl yn cynnwys:
- a. gofyn i gymunedau lleol pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt a sut maent am eu gweld yn cael eu darparu;
 - b. darparu gwasanaethau 'estyn allan' i grwpiau penodol mewn awyrgylch a dull sy'n gyfarwydd iddynt;
 - c. cryfhau cydweithrediad gyda grwpiau penodol;
 - ch. trefnu cyfieithwyr;
 - d. gweithredu cadarnhaol (gweler yr eirfa);
 - dd. datblygu mynediad at gyfrifiaduron a gwasanaethau rhyngrwyd.

Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff

- 4.39 **Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus nodi yn eu cynllun cydraddoldeb hiliol eu trefniadau ar gyfer hyfforddi eu staff mewn perthynas â'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb hiliol, ac unrhyw ddyletswyddau penodol (gweler 4.6).**
- 4.40 Dylai fod yn nod bod trefniadau hyfforddi staff o dan y ddyletswydd hon yn sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am ateb y dyletswyddau cyffredinol a phenodol yn ymwybodol o'r rhain - a bod ganddynt y sgiliau priodol i'w cyflawni. Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried yr hyn y mae angen i staff ar wahanol lefelau ei wybod ynglŷn â dyletswyddau cyffredinol a phenodol, cyn rhoi'r hyfforddiant priodol iddynt. Mae'r ddyletswydd benodol hon hefyd yn cynnwys ateb anghenion hyfforddiant y staff sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu cynllun hiliol yr awdurdod cyhoeddus. Dylai hyfforddiant staff felly ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i ateb y dyletswyddau a osodir arno yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ac mewn unrhyw ddyletswyddau penodol.

5

Hybu cydraddoldeb hiliol **Dyletswyddau penodol: cyflogaeth**

- 5.1 Mae'r ddyletswydd benodol ar gyflogaeth yn gymwys ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus a rwymir gan y ddyletswydd gyffredinol (gweler atodiad 3). Ni rwymir ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch gan y ddyletswydd gyflogaeth, oherwydd ei bod yn bosibl bod ganddynt gyfrifoldebau cyflogaeth gwahanol (gweler pennod 6). Mae ychydig o asiantaethau, gan amlaf rhai ymgynghorol, nas rhwymir gan y ddyletswydd gyflogaeth.
- 5.2 Mae erthyglau 5(1), 5(2), a 5(3), y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) Gorchymyn 2001 yn dweud y canlynol:
5. (1) *Bydd person y mae'r erthygl hon yn berthnasol iddo,*
- (a) *cyn 31ain Mai 2002, yn sefydlu trefniadau ar gyfer cyflawni, cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol, ei ddyletswyddau yn unol â pharagraff (2); ac*
 - (b) *yn cyflawni'r dyletswyddau hynny yn unol â'r cyfryw drefniadau.*
- (2) *Bydd yn ddyletswydd ar y cyfryw berson i fonitro, yn ôl y grŵp hiliol y maent yn perthyn iddo,*
- (a) *nifer y –*
 - (i) *staff mewn swyddi, a'r*
 - (ii) *ymgeiswyr am gyflogaeth, hyfforddiant a dyrchafiad, o bob un o'r cyfryw grŵp, a*
 - (b) *lle bo gan y person hwnnw 150 neu ragor o staff llawn amser, niferoedd y staff o bob cyfryw grŵp sy'n –*
 - (i) *derbyn hyfforddiant*
 - (ii) *elwa, neu ar eu colled, o ganlyniad i weithdrefnau asesu perfformiad;*
 - (iii) *ymwneud â chymau cwyno;*
 - (iv) *gysylltiedig â chymau disgyblu; neu sydd*
 - (v) *â'u cyflogaeth gyda'r person hwnnw yn dod i ben;*
- (3) *Bydd y cyfryw berson yn cyhoeddi yn flynyddol ganlyniadau ei fonitro yn unol â pharagraff (2).*

- 5.3 Efallai y bydd yn fuddiol i awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cynhyrchu cynllun cydraddoldeb hiliol ei gynnwys yn eu trefniadau ar gyfer ateb eu dyletswyddau cyflogaeth yn eu cynlluniau cydraddoldeb.
- 5.4 Mae'r dyletswyddau penodol ar gyflogaeth wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith ar gyfer mesur cynnydd mewn cydraddoldeb cyfle mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Bwriedir y bydd y swyddogaethau penodol yn darparu gwybodaeth fonitro i lywio mentrau a allai arwain at weithlu sector cyhoeddus sy'n fwy cynrychioladol. Er enghraifft, gallai'r mentrau hyn gynnwys gosod targedau recriwtio ar gyfer grwpiau hiliol a dangynrychiolir, neu ar gyfer targedu cyrsiau datblygu rheolwyr at grwpiau hiliol a dangynrychiolir ar rai lefelau. Mae'r dyletswyddau penodol yn gosod safonau lleiaf ar gyfer cyflogaeth. Gall materion eraill hefyd fod yn berthnasol i ymarferion cyflogaeth da. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.
- 5.5 Mae monitro ethnig (gweler yr eirfa) yn ganolog i ddarparu darlun clir o'r hyn sy'n digwydd yn ystod proses cyflogi awdurdod – o geisio am swydd ac ymuno â'r awdurdod i'w gadael. Mae monitro'n helpu i fesur datblygiad yn gyffredinol ac i ddangos a yw polisiâu cyfleoedd cyfartal yr awdurdod yn effeithiol. Mae monitro'n arf hanfodol i asesu cynnydd – neu ddiffyg cynnydd – tuag at gael gwared ar rwystrau i gydraddoldeb cyfle yn y gwasanaethau sifil.
- 5.6 Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn esbonio i ymgeiswyr a staff presennol pam mae'n monitro cyflogaeth. Fel arfer ni fydd rhaid i bobl roi gwybodaeth ynghylch eu grŵp hiliol ond os ydynt yn ei wneud yn wirfoddol, a dylai'r awdurdod esbonio amodau'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (ynghylch prosesu'r wybodaeth hon) iddynt.
- 5.7 Lle bynnag y bo modd, dylai'r awdurdod gynnwys gwybodaeth fonitro yn y systemau gwybodaeth a ddefnyddir eisoes. Efallai y bydd yr awdurdod yn gallu cyhoeddi canlyniadau ei fonitro bob blwyddyn trwy'i systemau adrodd presennol. Yn ei ganlyniadau a gyhoeddir, dylai'r awdurdod esbonio sut mae'n delio â thueddiadau neu broblemau a ddarganfyddir wrth fonitro. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'r awdurdod gyfuno a dadansoddi data monitro ethnig gyda data arall; er enghraifft ar ryw ac anabled.
- 5.8 I helpu i ateb y ddyletswydd benodol ar gyflogaeth, dylai awdurdodau cyhoeddus:
- a. gasglu data monitro ethnig;
 - b. cyhoeddi canlyniadau'r monitro bob blwyddyn.
- 5.9 I wirio eu bod yn ateb y ddyletswydd gyffredinol, efallai y bydd awdurdodau cyhoeddus eisiau:
- a. dadansoddi'r data i weld a oes unrhyw batrymau o anghyfartaledd;
 - b. cymryd pa bynnag gamau sydd angen i gael gwared ar rwystrau a hybu cydraddoldeb cyfle.
- 5.10 Os yw'r monitro'n dangos bod y polisiâu, camau ac arferion cyflogaeth yn arwain at wahaniaethu ar sail hil yn anghyfreithlon, dylai'r awdurdod gymryd camau i gael gwared ar wahaniaethu. Fel cam cyntaf, dylai'r awdurdod archwilio pob un o'i gamau'n fanwl i ddarganfod ble a sut y gall fod gwahaniaethu'n digwydd, ac yna ystyried pa newidiadau y dylid eu cyflwyno.

- 5.11 Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd y monitro'n dangos bod y polisiâu, camau ac ymarferion presennol yn cael effaith andwyol ar gydraddoldeb cyfle neu ar gysylltiadau hiliol da (er nad ydynt yn achosi gwahaniaethu anghyfreithlon). Os yw hyn yn wir, dylai'r awdurdod ystyried newid ei bolisiâu neu gamau fel y byddant yn ateb yr un nodau, ond nid yn niweidio cydraddoldeb cyfle neu gysylltiadau hiliol.

Gweithredu cadarnhaol

- 5.12 Os yw monitro'n datgelu bod rhai grwpiau hiliol yn cael eu tangynrychioli yn y gweithlu, dylai'r awdurdod ystyried defnyddio 'gweithredu cadarnhaol' (gweler yr eirfa). Mae hyn yn caniatáu i gyflogwyr ac eraill dargedu eu hymdrechion hyfforddiant swydd a recriwtio tuag at y grwpiau hynny sy'n cael eu tangynrychioli mewn maes gwaith penodol. Fodd bynnag, nid yw gweithredu cadarnhaol yn caniatáu gwahaniaethu wrth benderfynu i bwy y cynigir swydd.

Categoriâu ethnig a chyfrifiad 2001

- 5.13 Anogir awdurdodau cyhoeddus i ddefnyddio'r un system dosbarthu ethnig ag a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 2001. Mae rhai awdurdodau eisoes wedi sefydlu'r systemau. Os yw'r awdurdod yn penderfynu casglu gwybodaeth fwy manwl, dylid sicrhau bod y categorïau'r un peth, neu'n debyg, i'r rheini a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 2001. Dylai unrhyw gategoriâu ychwanegol, a ychwanegir ganddo i adlewyrchu ei amgylchiadau arbennig, gyd-fynd â chategoriâu cyfrifiad 2001.
- 5.14 Dylai awdurdodau lleol baratoi cynlluniau realistig wedi'u hamserlennu i addasu eu systemau monitro ethnig i ateb y dyletswyddau penodol.
- 5.15 Mae cyfrifiad 2001 yn defnyddio dosbarthiadau ethnig gwahanol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

III

Rhan

*Hybu cydraddoldeb hiliol
mewn sefydliadau
addysgol*

6

Hybu cydraddoldeb hiliol

Dyletswyddau penodol: sefydliadau addysgol

Cyflwyniad

- 6.1 Ysgrifennwyd y rhan hon o'r côd yn bennaf ar gyfer darparwyr addysg – sef y rhai a ganlyn:
 - a. Cyrff llywodraethol ysgolion gwladol (gweler yr eirfa) a sefydliadau addysgol eraill a gynhelir gan awdurdod addysg lleol (AALL) – mewn geiriau eraill, pob ysgol gymunedol, sefydliadol ac ysgol wirfoddol, ac ysgolion arbennig, a gynhelir gan yr AALL.
 - b. Cyrff llywodraeth Colegau Technegol Dinas, Colegau Dinas ar gyfer Technoleg neu'r Celfyddydau, ac Athrofydd Dinas.
 - c. Cyrff llywodraethol sefydliadau addysg bellach (gweler yr eirfa).
 - ch. Cyrff llywodraethol sefydliadau addysg uwch (gweler yr eirfa).
- 6.2 Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyd ateb y ddyletswydd gyffredinol. Mae pennod 3 yn esbonio'r hyn mae angen iddynt ei wneud i ateb y ddyletswydd. Mae'r Ysgrifennydd Cartref hefyd wedi gosod dyletswyddau penodol ar ysgolion (gweler 6.7 - 6.22), ac ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch (gweler 6.23 - 6.44), i'w helpu i ateb y ddyletswydd gyffredinol.
- 6.3 Nid yw'r dyletswyddau penodol yn glŷn â chyflogaeth a ddisgrifir ym mhennod 5, yn gymwys yn uniongyrchol i ysgolion. Yr Awdurdodau Addysg Lleol sy'n gyfrifol yn bennaf am fonitro cyflogaeth. Disgwylir i bob ysgol i roi i'w AALLau wybodaeth monitro ethnig am eu staff ar ffurflenni rheolaidd, fel y gall yr AALL ateb y ddyletswydd.
- 6.4 Mae gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ddyletswyddau eraill, a ddisgrifir ym mharagraffau 6.39 i 6.41. Yn ogystal â'r dyletswyddau hyn, bydd yn rhaid i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch roi gwybodaeth fonitro am eu staff dysgu i gyrrff megis y cynghorau cyllido addysg uwch (gweler 6.45 – 6.48) am y ddyletswyddau penodol a osodwyd ar y cyrff hyn.
- 6.5 Nod y ddyletswydd gyffredinol yw i wneud cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r ffordd y mae awdurdodau yn cyflawni eu swyddogaethau (gweler yr eirfa). Dylai hybu cydraddoldeb hiliol fod yn rhan ganolog o ddatblygu polisi, darparu gwasanaethau ac ymarferion cyflogaeth.

Buddion y ddyletswydd

- 6.6 Bydd ateb y ddyletswydd yn helpu sefydliadau addysgol i wneud y canlynol.
- Sicrhau bod anghenion pob disgybl a myfyriwr yn cael eu diwallu ac y gallant gyrraedd eu potensial. Bydd y ddyletswydd yn helpu i godi safonau ar draws y sefydliad cyfan.
 - Targedu gwaith (gan gynnwys adnoddau a chefnogaeth) i gael gwared ar anghydraddoldebau o ran lefelau llwyddiant a chynnydd rhwng grwpiau hiliol; eu profiad o fesurau disgyblu (megis diarddeliad); mynediad; neu asesiadau.
 - Creu awyrgylch cadarnhaol lle rhennir ymrwymiad i werthfawrogi amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau.
 - Herio a rhwystro hiliaeth a gwahaniaethu, a hybu cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.
 - Paratoi disgyblion a myfyrwyr i fod yn ddinasyddion da, sy'n byw ac yn gweithio mewn cymdeithas aml-ethnig.
 - Creu a chadw gweithlu sy'n cynrychioli cefndiroedd ethnig gwahanol.
 - Denu gweithlu ymrwymedig a theyrngar, lle perchir cyflogedigion o bob grŵp hiliol a lle gallant gyrraedd eu potensial llawn.
 - Gwneud defnydd llawn o'r sgiliau a safbwyntiau gwahanol sy'n bodoli yn y gymuned wrth redeg sefydliad (er enghraifft, fel llywodraethwyr neu aelodau bwrdd), darparu'r cwricwlwm, a chefnogi disgyblion, myfyrwyr a staff.

Ysgolion

- 6.7 Mae erthyglau 3(1), 3(2), 3(3), 3(5) Gorchymyn Dyletswyddau Statudol 2001 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn gosod dyletswyddau penodol ar gyrff llywodraethol ysgolion (gweler yr eirfa). Bydd yn rhaid i'r cyfryw gorff:

3. (1)...*cyn 31ain Mai 2002,*

- baratoi datganiad ysgrifenedig o'i bolisi i hybu cydraddoldeb hiliol (y cyfeirir ato yn yr erthygl hon fel ei 'bolisi cydraddoldeb hiliol'), a*
- chael trefniadau yn eu lle ar gyfer cyflawni, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswyddau yn unol â pharagraff (3) ...*

(2) *Bydd y cyfryw gorff,*

- yn cadw copi o'r datganiad, ac*
- yn cyflawni'r dyletswyddau hynny yn unol â'r cyfryw drefniadau*

(3) *Bydd yn ddyletswydd ar y cyfryw gorff ...i –*

- asesu effaith ei bolisiau, gan gynnwys ei bolisi cydraddoldeb hiliol, ar ddisgyblion, staff a rhieni o wahanol grwpiau hiliol, yn arbennig, yr effaith ar lefelau cyrhaeddiant y cyfryw ddisgyblion; a*

(b) *monitro, yn ôl eu heffaith ar y cyfryw ddisgyblion, staff a rhieni, y modd y gweithredir y cyfryw bolisiau gan gynnwys, yn arbennig, eu heffaith ar lefelau cyrhaeddiant y cyfryw ddisgyblion.*

.....

(5) *Bydd y cyfryw gorff yn cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i gyhoeddi yn flynyddol ganlyniadau ei fonitro yn unol â'r erthygl hon.*

Polisi cydraddoldeb hiliol

- 6.8 **Mae'n rhaid i ysgolion baratoi a chadw copi o'u polisi cydraddoldeb hiliol, a sefydlu trefniadau i ateb eu dyletswyddau cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol bosibl. Mae'n rhaid i'r datganiad a'r trefniadau fod yn barod erbyn 31 Mai 2002 (gweler 6.7).**
- 6.9 Bydd polisi cydraddoldeb hiliol yn helpu'r ysgol i rwystro unrhyw wahaniaethu ar sail hil, ac i hybu cydraddoldeb cyfle a chysylltiadau hiliol da ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Dylai'r polisi fod yn rhan o drefniadau cynllunio presennol yr ysgol.
- 6.10 Dylai'r polisi cydraddoldeb hiliol fod yn ddatganiad ysgrifenedig o ddyletswyddau ac ymrwymadau. Dylai fod yn gysylltiedig â chynllun gweithredu'r polisi yn ymarferol. Byddai polisi da yn:
- rhan o gynllun datblygu'r ysgol;
 - rhoi manylion ynglŷn â sut y bydd yr ysgol yn gweithredu'r polisi, yn ei fonitro ac yn asesu ei effeithiolrwydd;
 - diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir, fel y bydd pobl yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt; ac yn
 - esbonio'n glir beth fydd sefydliad yn ei wneud os na ddilynir y polisi.
- 6.11 Gellir cyfuno'r polisi cydraddoldeb hiliol gyda pholisiau eraill, megis polisi cyfle cyfartal neu bolisi amrywiaeth. Fodd bynnag, i ateb y ddyletswydd hon, bydd rhaid i'r polisi cydraddoldeb hiliol gael ei nodi'n glir a bod yn hygyrch.
- 6.12 Dylai'r polisi cydraddoldeb hiliol adlewyrchu cymeriad ac amgylchiadau'r ysgol, a delio â'r prif feysydd sy'n berthnasol i hybu'r ddyletswydd gyffredinol. Er enghraifft:
- cyrhaeddiant a chynnydd disgybl;
 - y cwricwlwm, addysgu a dysgu (gan gynnwys anghenion ieithyddol a diwylliannol);
 - hybu cysylltiadau hiliol da yn yr ysgol ac yn y gymuned leol;
 - gofal ac asesiad;
 - recriwtio a hyfforddi staff a datblygiad gyrfaol;
 - gwerthoedd yr ysgol;

- e. ymddygiad disgyblion, disgyblu a diarddel;
- f. aflonyddu a bwlio hiliol;
- ff. gweithdrefnau derbyn a throsglwyddo;
- g. aelodaeth y corff llywodraethol;
- ng. cyfranogiad rhieni a'r gymuned yn yr ysgol.

Asesu effaith polisiau

- 6.13 **O dan y ddyletswydd, mae'n rhaid i ysgolion asesu effaith eu polisiau (gan gynnwys eu polisi cydraddoldeb hiliol) ar ddisgyblion, staff a rhieni o grwpiau hiliol gwahanol. Yn enwedig, dylai ysgolion asesu a yw eu polisiau yn cael, neu'n gallu cael, effaith andwyol ar lefelau cyrhaeddiant disgyblion o grwpiau hiliol gwahanol (gweler 6.7).**
- 6.14 Dylai'r ysgol asesu pa mor effeithiol y mae ei bolisi cydraddoldeb hiliol trwy ei threfniadau datblygu ac adolygu polisiau presennol.

Asesu'r effaith ar ddisgyblion, staff a rhieni

- 6.15 Gallai'r prif gwestiynau ar gyfer asesu effaith polisiau ysgol, gan gynnwys ei bolisi cydraddoldeb hiliol – gan roi sylw arbennig i lefelau cyrhaeddiant disgyblion – gynnwys y canlynol.
- a. A yw'r ysgol yn sicrhau nad yw ei pholisiau, er enghraifft ar ddiarddel, bwlio, y cwricwlwm, cyfranogiad y rheini, cyfranogiad cymunedol, a chydraddoldeb hiliol, yn cael effaith niweidiol ar ddisgyblion, staff neu rieni o rai grwpiau hiliol?
 - b. Sut mae'r ysgol yn helpu ei holl staff i ddatblygu a chyrraedd eu potensial llawn?
 - c. Sut mae'r ysgol yn annog pob rhiant i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol?
 - ch. A yw'r ysgol yn helpu ei holl ddisgyblion i gyflawni gymaint ag y gallant, a gwneud y gorau o'r hyn a gynnigir, yn seiliedig ar eu hanghenion unigol?
 - d. Sut mae'r ysgol yn esbonio unrhyw wahaniaethau? A ellir cyfiawnhau'r esboniadau hyn? A ellir eu cyfiawnhau ar seiliau heb fod yn hiliol, megis anawsterau gyda Saesneg?
 - dd. A yw pob polisi perthnasol yn cynnwys nodau i ddelio â gwahaniaethau (neu wahaniaethau posibl) yng nghyrraeddiant disgyblion o grwpiau hiliol gwahanol? A yw nodau'r polisi yn arwain at weithredu i ddelio ag unrhyw wahaniaethau a ddarganfyddir (er enghraifft, gwersi ychwanegol i ddisgyblion, neu gamau i atal bwlio hiliol)?
 - e. Beth mae'r ysgol yn ei wneud i godi safonau, a hyrwyddo cyfle cyfartal i ddisgyblion y mae'n ymddangos eu bod yn tangyflawni ac a all fod angen, cefnogaeth ychwanegol?

- f. Beth mae'r ysgol yn ei wneud ynghylch:
 - (i) paratoi disgyblion i fyw mewn cymdeithas aml-ethnig;
 - (ii) hybu cydraddoldeb hiliol a chytgord, yn yr ysgol, ac yn y gymuned leol;
 - (iii) atal, neu ddelio â, hiliaeth?
 - ff. A yw'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn briodol ac yn effeithiol? A oes unrhyw ganlyniadau annisgwyl? Os oes, beth sy'n cael ei wneud amdanynt?
 - g. Pa newidiadau sydd angen i'r ysgol eu gwneud i bolisïau perthnasol, nodau polisi, ac unrhyw dargedau a strategaethau cysylltiedig eraill?
- 6.16 I ateb y cwestiynau hyn, gallai ysgolion ystyried:
- a. casglu a dadansoddi unrhyw wybodaeth fonitro ac unrhyw wybodaeth berthnasol;
 - b. siarad â disgyblion, rhieni a staff i ddarganfod eu hanghenion a'u barn;
 - c. cynnal arolygon neu ymchwil arbennig.
- 6.17 Gallai ysgolion ddefnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn i:
- a. ailfeddwl eu hamcanion cydraddoldeb hiliol (lle bo angen); ac i
 - b. ddylanwadu ar, ac i arwain, eu proses gynllunio a'u penderfyniadau.

Monitro effaith polisïau

- 6.18 **O dan y ddyletswydd, mae'n rhaid i ysgolion fonitro effaith eu polisïau ar ddisgyblion, rhieni a staff o grwpiau hiliol gwahanol. Yn enwedig, dylai ysgolion fonitro effaith eu polisïau ar lefelau cyrhaeddiant disgyblion (gweler 6.7).**
- 6.19 Er mwyn monitro cyrhaeddiant disgyblion, dylai ysgolion gasglu gwybodaeth am berfformiad a chynnydd disgyblion, yn ôl grŵp hiliol. Bydd angen iddynt ddadansoddi'r wybodaeth, a'i defnyddio i archwilio tueddiadau. I helpu i ddehongli'r wybodaeth hon, mae'n bosibl y bydd yn fuddiol i ysgolion archwilio meysydd eraill a all gael effaith ar gyrhaeddiant disgyblion.
- 6.20 Bydd monitro gwybodaeth yn helpu ysgolion i weld pa gynnydd maent yn ei wneud tuag at ateb eu targedau ac amcanion o ran cydraddoldeb hiliol. Yn arbennig, bydd yn help iddynt:
- a. ddarganfod unrhyw wahaniaethau o ran cyrhaeddiant rhwng disgyblion o wahanol grwpiau hiliol;
 - b. gofyn pam fod y gwahaniaethau hyn yn bodoli, a gwirio'r esboniadau a roddir;
 - c. adolygu pa mor effeithiol yw eu targedau ac amcanion presennol;
 - ch. penderfynu pa gamau pellach y dylid eu cymryd i ateb tair rhan y ddyletswydd gyffredinol, ac i wella perfformiad disgyblion o wahanol grwpiau hiliol.

Cyhoeddi

- 6.21 **O dan y ddyletswydd, mae'n rhaid i ysgolion gymryd camau ymarferol rhesymol i gyhoeddi canlyniadau eu monitro bob blwyddyn (gweler 6.7).**
- 6.22 Dylai'r ysgol ddefnyddio'i threfniadau presennol i gyhoeddi canlyniadau'r monitro a wna i ateb y ddyletswydd. Dylai crynodebau o'r tueddiadau, sy'n nodi tueddiadau a materion allweddol a'r camau mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd, fod yn ddigonol.

Sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch

- 6.23 Mae erthyglau 3(1), 3(2), 3(4), 3(5) Gorchymyn Dyletswyddau Statudol 2001 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn gosod dyletswyddau penodol ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Bydd i'r cyfryw gorff:
3. (1) ...*cyn 31ain Mai 2002,*
- (a) *ddarparu datganiad ysgrifenedig o'i bolisi i hybu cydraddoldeb hiliol (y cyfeirir ato yn yr erthygl hon fel ei 'bolisi cydraddoldeb hiliol'),*
 - (b) *gael trefniadau yn eu lle ar gyfer cyflawni, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ei ddyletswyddau yn unol â pharagraff (4)...*
- (2) *Bydd y cyfryw gorff yn,*
- (a) *cadw copi o'r datganiad, ac yn*
 - (b) *cyflawni'r dyletswyddau hynny yn unol â'r cyfryw drefniadau*
- ...
- (4) *Bydd yn ddyletswydd ar y cyfryw gorff ...i –*
- (a) *asesu effaith ei bolisiau, gan gynnwys ei bolisi cydraddoldeb hiliol, ar fyfyrwyr a staff o wahanol grwpiau hiliol;*
 - (b) *monitro, yn ôl y grwpiau hiliol hynny, fynediad a chynnydd myfyrwyr a recriwtio a datblygiad gyrfaol staff; ac i*
 - (c) *gynnwys yn ei ddatganiad ysgrifenedig esboniad o'i drefniadau ar gyfer cyhoeddi'r datganiad hwnnw a chanlyniadau ei asesu a'i fonitro yn unol ag is-baragraffau (a) a (b).*
- (5) *Bydd y cyfryw gorff yn cymryd unrhyw gamau sydd yn rhesymol ymarferol i gyhoeddi yn flynyddol ganlyniadau ei fonitro yn unol â'r erthygl hon*

Polisi cydraddoldeb hiliol

- 6.24 **Dan y ddyletswydd, mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch baratoi a chadw datganiad ysgrifenedig o'u polisi cydraddoldeb hiliol, a sefydlu trefniadau i ateb eu dyletswyddau cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol bosibl. Mae'n rhaid i'r datganiad a'r trefniadau fod yn barod erbyn 31 Mai 2002 (gweler 6.23).**
- 6.25 Bydd polisi cydraddoldeb hiliol yn helpu'r ysgol i rwystro unrhyw wahaniaethu ar sail hil, ac i hybu cydraddoldeb cyfle a chysylltiadau hiliol da ym mhob agwedd o waith y sefydliad. Dylai'r polisi fod yn rhan o drefniadau cynllunio presennol y sefydliad.
- 6.26 Dylai'r polisi cydraddoldeb hiliol fod yn ddatganiad ysgrifenedig o ddyletswyddau ac ymrwymadau. Dylai fod yn gysylltiedig â chynllun gweithredu'r polisi yn ymarferol. Byddai polisi da:
- yn rhan o gynllun blynyddol y sefydliad;
 - yn rhoi manylion am sut y bydd y sefydliad yn gweithredu'r polisi, ei fonitro, ac asesu ei effeithiolrwydd;
 - yn darparu fframwaith ar gyfer cynnwys cydraddoldeb hiliol mewn polisiâu perthnasol eraill, ac i bob maes gweithgaredd perthnasol arall yn y sefydliad;
 - yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir, er mwyn i bobl ddeall yn union beth a ddisgwylir ganddynt;
 - yn esbonio'n glir beth fydd y sefydliad yn ei wneud os na ddilynir y polisi; ac
 - yn amlinellu trefniadau'r sefydliad ar gyfer cyhoeddi yn flynyddol ei bolisi cydraddoldeb hiliol ynghyd â chanlyniadau'r monitro a'r asesu a wna i gyflawni'r ddyletswydd.
- 6.27 Dylai'r polisi cydraddoldeb hiliol adlewyrchu cymeriad ac amgylchiadau'r sefydliad, a delio â'r prif feysydd sy'n berthnasol i hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da, a thaclo gwahaniaethu ar sail hil. Gall y meysydd hyn gynnwys:
- gwerthoedd y sefydliad;
 - y cwricwlwm, addysgu a dysgu (gan gynnwys anghenion ieithyddol a diwylliannol);
 - asesu;
 - aflonyddu a bwlio hiliol;
 - rheolaeth y sefydliad a'r corff llywodraethol;
 - derbyn, asesu a chyfranogiad;
 - cefnogiaeth ac arweiniad i fyfyrwyr;
 - ymddygiad a disgyblaeth;
 - partneriaethau a chysylltiadau cymunedol; a
 - recriwtio a hyfforddi staff a datblygiad gyrfaol.

- 6.28 Gellir cyfuno'r polisi cydraddoldeb hiliol gyda pholisïau eraill, megis polisi cyfle cyfartal neu bolisi amrywiaeth. Fodd bynnag, i ateb y ddyletswydd hon, bydd raid i'r polisi cydraddoldeb hiliol gael ei nodi'n glir a bod yn hygyrch.

Asesu effaith polisïau

- 6.29 **Dan y ddyletswydd, mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch asesu effaith eu polisïau (gan gynnwys polisïau cydraddoldeb hiliol) ar fyfyrwyr o grwpiau hiliol gwahanol (gweler 6.23).**
- 6.30 Pwrpas yr asesiad yw gweld a yw polisïau'r sefydliad yn helpu i sicrhau cydraddoldeb hiliol i fyfyrwyr a staff o grwpiau hiliol gwahanol neu, a allant gael effaith andwyol arnynt.
- 6.31 Dylai'r sefydliad asesu effaith ei bolisïau ar fyfyrwyr a staff o grwpiau hiliol gwahanol. Mae'n bosib y bydd yn ddefnyddiol iddynt gynnwys yr asesiad hwn yn eu trefniadau presennol ar gyfer adolygu eu polisïau.
- 6.32 Gallai cwestiynau ar gyfer asesu effaith polisïau'r sefydliad gynnwys y rhai canlynol.
- a. A yw'r sefydliad yn helpu'r holl staff a myfyrwyr i gyflawni cymaint ag y gallant, ac i elwa i'r eithaf o'r hyn a ddarperir ar eu cyfer?
 - b. Sut mae'r sefydliad yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o fyfyrwyr o ran addysgu a dysgu, cyfraddau ymadael, cynnydd a chyrrhaeddiant y myfyrwyr, asesiad, mynediad at adnoddau dysgu, cefnogaeth ac arweiniad, a chyfleodd cwricwlaidd ac eraill?
 - c. A ellir cyfiawnhau'r esboniadau hyn? A ellir eu cyfiawnhau ar seiliau heb fod yn hiliol, (er enghraifft, anawsterau gyda Saesneg?)
 - ch. Sut mae'r sefydliad yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o staff o ran graddfeydd a swyddi, math o gontract, datblygiad gyrfaol, hyfforddiant, a chyfleoedd eraill?
 - d. A ellir cyfiawnhau'r esboniadau hyn? A ellir eu cyfiawnhau ar seiliau heb fod yn hiliol, (er enghraifft, newidiadau ym mholisïau'r sefydliad cyfan ar recriwtio parhaol?)
 - dd. Beth mae'r sefydliad yn mynd i'w wneud i:
 - (i) godi lefelau cyrrhaeddiant a thaclo anghydraddoldeb hiliol wrth recriwtio staff, ac mewn perfformiadau a chynnydd myfyrwyr;
 - (ii) hybu cydraddoldeb hiliol a chytgord, o fewn y sefydliad ac yn y gymuned ehangach; ac
 - (iii) atal, neu ddelio â, hiliaeth?
 - e. A yw nodau'r polisi yn arwain at gamau gweithredol i ddelio ag unrhyw anghydraddoldebau na ellir eu cyfiawnhau a nodir?
 - f. A yw'r camau gweithredu'n briodol ac yn effeithiol? A oes unrhyw ganlyniadau annisgwyl? Os oes, beth sy'n cael ei wneud amdanynt?

- ff. Pa newidiadau y mae'n rhaid i'r sefydliad eu gwneud i'w bolisiau, i'w amcanion polisi perthnasol, a thargedau a strategaethau cysylltiedig?
- 6.33 I ateb y cwestiynau hyn, gallai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ystyried:
- casglu a dadansoddi gwybodaeth fonitro berthnasol a gwybodaeth arall;
 - siarad â staff a myfyrwyr o bob grŵp hiliol i ddarganfod eu hanghenion a'u barn;
 - cynnal arolygon ac astudiaethau ymchwil.
- 6.34 Gallai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ddefnyddio'r asesiadau i:
- ailfeddwl eu nodau cydraddoldeb hiliol (lle bo angen hynny);
 - ddyfanwadu ar, ac arwain, eu proses gynllunio a'u penderfyniadau.

Monitro derbyn i'r sefydliad, recriwtio a chynnydd

- 6.35 **O dan y ddyletswydd, mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch fonitro, yn ôl grŵp hiliol, dderbyniadau a chynnydd myfyrwyr, a recriwtio a chynnydd gyrfaoel staff (gweler 6.23).**
- 6.36 Mae monitro'n golygu casglu gwybodaeth er mwyn mesur perfformiad ac effeithiolrwydd sefydliad. Gall y canlyniadau ddangos sut y gallai'r sefydliad wella.
- 6.37 Dylai'r sefydliad fonitro pob rhan o'r broses derbyn myfyrwyr, o'r ceisiadau i'r canlyniadau. I helpu i ddehongli'r wybodaeth, gallai'r sefydliad hefyd ystyried monitro meysydd eraill a allai effeithio'n andwyol ar fyfyrwyr o rai grwpiau hiliol, megis:
- dewis pwnc;
 - statws cartref neu ryngwladol; a
 - dulliau dewis.
- 6.38 Dylai'r sefydliad fonitro cyrhaeddiant a chynnydd pob myfyriwr. Er mwyn helpu i ddehongli'r wybodaeth, gallai'r sefydliad ystyried monitro meysydd eraill a allai effeithio'n andwyol ar fyfyrwyr o rai grwpiau hiliol, fel:
- nifer y myfyrwyr, trosglwyddiadau a chyfraddau rhoi'r gorau iddi;
 - dulliau gwahanol o asesu myfyrwyr;
 - lleoliadau gwaith;
 - canlyniadau rhaglenni yn cael eu targedu at bobl o grwpiau hiliol penodol; a
 - bwlio ac aflonyddu hiliol.
- 6.39 Dylai'r sefydliad fonitro pob gweithgaredd sy'n ymwneud â recriwtio a dewis staff, ac â datblygiad gyrfaoel a chyfleoedd am ddyrchafiad. Gallai ystyried monitro ar gyfer pob adran yn ogystal â'r sefydliad cyfan. Mae hyn yn debygol o gynnwys:
- dewis a hyfforddi aelodau o'r panel;
 - ceisiadau a phenodiadau;

- c. cyfraddau llwyddiant ar gyfer y gwahanol ddulliau o ddewis;
 - ch. penodiadau parhaol, dros dro neu rai cyfnod penodol; a
 - d. statws cartref neu ryngwladol (ar gyfer sefydliadau sy'n recriwtio'n rhyngwladol).
- 6.40** Dylai'r sefydliad nodi meysydd lle gallai datblygiad gyrfa gael ei effeithio a monitro'r rheiny. Gallent gynnwys:
- a. staff, yn ôl eu graddfa a'r math o swydd;
 - b. staff, yn ôl hyd eu gwasanaeth;
 - c. hyfforddiant a datblygiad staff, gan gynnwys ceisiadau a dethol, os yw'n briodol;
 - ch. canlyniadau rhaglenni hyfforddiant a datblygiad gyrfa neu strategaethau sy'n targedu staff o grwpiau hiliol neilltuol;
 - d. gwerthusiadau staff; a
 - dd. dyrchafiadau staff, gan gynnwys dulliau recriwtio a meini prawf ar gyfer dewis ymgeiswyr.
- 6.41** Caiff y sefydliad fudd o asesu ei wybodaeth fonitro'n gyson. Bydd hyn yn caniatáu iddo werthuso'r cynnydd y mae'n ei wneud wrth gyflawni ei dargedau a nodau cydraddoldeb hiliol. Bydd yr asesiadau hyn yn helpu'r sefydliad i:
- a. ganfod unrhyw wahaniaethau rhwng staff a myfyrwyr o wahanol grwpiau hiliol;
 - b. ofyn pam fod y gwahaniaethau hyn yn bodoli;
 - c. adolygu pa mor effeithiol yw'r targedau a nodau presennol;
 - ch. benderfynu faint rhagor y gellir ei wneud i wella perfformiad myfyrwyr o wahanol grwpiau hiliol (gan gynnwys gweithredu'n gadarnhaol fel y caniateir yn adran 35 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol; gweler yr eirfa) ac i wella recriwtio a chynnydd staff o wahanol grwpiau hiliol (eto gan gynnwys gweithredu'n gadarnhaol fel y caniateir yn adrannau 37 a 38 o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol; gweler yr eirfa); ac i
 - d. benderfynu pa gamau pellach y bydd raid eu cymryd o bosibl, i gyflawni tair rhan y ddyletswydd gyffredinol.

Cyhoeddi

- 6.42 **Dan y ddyletswydd, mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch gynnwys datganiad yn eu polisi cydraddoldeb hiliol ysgrifenedig am eu trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r polisi cydraddoldeb hiliol, a chanlyniadau asesiadau a monitro. Mae'r ddyletswydd hefyd yn gorfodi sefydliadau i gymryd camau rhesymol bosibl i gyhoeddi, bob blwyddyn, ganlyniadau'r monitro y maent yn eu cyflawni i ateb y ddyletswydd. (Gweler 6.23.)**
- 6.43 Dylai polisi cydraddoldeb hiliol y sefydliad egluro beth a gyhoeddir, ac ar ba ffurf y cyhoeddir y wybodaeth. Dylai'r sefydliad ddefnyddio'r trefniadau sy'n bodoli eisoes i gyhoeddi canlyniadau ei fonitro a'i asesiadau.
- 6.44 Gallai'r sefydliad hefyd ystyried cyhoeddi canlyniadau unrhyw ymgynghori a wnânt i ateb y ddyletswydd. Gallai'r wybodaeth a gyhoeddant gynnwys:
- pam cynhaliwyd yr ymgynghoriad;
 - sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad;
 - crynodeb o'r ymatebion neu'r safbwyntiau a fynegwyd;
 - asesiad o'r opsiynau polisi; ac
 - yr hyn mae'r sefydliad yn bwriadu ei wneud.

Dyletswyddau cyflogaeth cyrff a chanddynt gyfrifoldebau penodol am addysg

- 6.45 Mae gan awdurdodau addysg lleol (AALLau) ddyletswydd i fonitro'r canlynol yn ôl grŵp hiliol, ar gyfer pob ysgol wladol yn eu hardal:
- staff mewn swyddi; a
 - ymgeiswyr am gyflogaeth, hyfforddiant a dyrchafiad;
 - ar gyfer ysgolion â 150 neu fwy o staff llawn amser, neu gyfwerth, nifer y staff sydd:
 - yn derbyn hyfforddiant;
 - yn elwa, neu ar eu colled, o ganlyniad i weithdrefnau asesu perfformiad;
 - yn ymwneud â chymau cwyno;
 - yn wynebu camau disgyblu;
 - â'u cyflogaeth gyda'r ysgol yn dod i ben;

- 6.46 Mae gan AALLau ddyletswydd i gymryd camau rhesymol bosibl i gyhoeddi, bob blwyddyn, ganlyniadau'r monitro hyn.
- 6.47 Mae gan yr Adran dros Addysg a Sgiliau ddyletswydd i:
- fonitro, yn ôl grŵp hiliol, nifer y staff addysgu o bob grŵp hiliol ym mhob ysgol wladol;
 - gymryd camau rhesymol bosibl i ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan AALLau at y pwrpas hwnnw; a
 - chymryd camau rhesymol bosibl i gyhoeddi, bob blwyddyn, ganlyniadau'r monitro hyn.
- 6.48 Mae gan y Cyngor dros Ddysgu a Sgiliau, y Cynghorau Cyllido Addysg Uwch ar gyfer Cymru a Lloegr, a'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ddyletswydd i:
- fonitro, yn ôl grŵp hiliol, nifer y staff addysgu ym mhob sefydliad y maent yn gyfrifol amdano;
 - gymryd camau rhesymol posibl i gyhoeddi, bob blwyddyn, ganlyniadau'r monitro hwn.

IV

Rhan

*Swyddogaeth y Comisiwn
Cydraddoldeb Hiliol*

7

Partneriaeth a gorfodi

Rôl y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol

- 7.1 Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol fel asiantaeth statudol annibynnol. Mae'r CRE yn adrodd bob blwyddyn i'r Ysgrifennydd Cartref, ond nid yw'n ffurfiol yn rhan o'r Swyddfa Gartref. Dyletswyddau'r Comisiwn, fel y'u nodir yn y Ddeddf, yw i:
- weithio tuag at gael gwared ar wahaniaethu;
 - hybu cydraddoldeb cyfle a chysylltiadau rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol; ac
 - adolygu prosesau'r Ddeddf.
- 7.2 Mae gan y CRE bwerau hyrwyddol a gorfodol, ac mae'r ddau'n gymwys i'w waith ar y ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae'r bennod hon yn esbonio sut bydd y CRE yn defnyddio'r pwerau hyn i helpu hybu cydraddoldeb hiliol.

Partneriaeth

Helpu awdurdodau cyhoeddus i ateb eu dyletswydd

- 7.3 Bydd y CRE yn:
- rhoi cyngor ymarferol;
 - gweithio gyda phrif rannau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y cyrff arolygu, i ddatblygu arfer da; ac
 - yn monitro ac yn lledaenu arfer da.

Darparu arweiniad ymarferol

- 7.4 Mae'r CRE wedi cyhoeddi canllawiau atodol anstatudol, i gyrff cyhoeddus, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch (gweler atodiad 6).
- 7.5 Bydd y CRE yn parhau i weithio gydag awdurdodau cyhoeddus i'w helpu i ateb eu dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Datblygu a monitro arfer da

- 7.6 Mae'r CRE yn gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus i ddatblygu a rhannu arfer da mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft, trwy'r canlynol:
- a. rhannu a dangos arfer da;
 - b. cefnogi hyfforddiant;
 - c. rhoi gwybodaeth a chynghor;
 - ch. diweddarau canllawiau a chyhoeddi deunyddiau eraill;
 - d. hybu arfer da; a
 - dd. chydabod arfer gwael.

Gorfodi

- 7.7 Mae'r CRE wedi ymrwymo i ddefnyddio ei holl bwerau gorfodi mewn modd priodol. Mae gan y CRE bwerau newydd o dan y Ddeddf i orfodi'r dyletswyddau penodol i hybu cydraddoldeb hiliol.

Y ddyletswydd gyffredinol

- 7.8 Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn ateb y ddyletswydd gyffredinol, gellir herio ei gamau gweithredu (neu ddiffyg gweithredu) trwy gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol (gweler yr eirfa). Gall person neu grŵp o bersonau, neu'r CRE wneud cais am adolygiad barnwrol.

Dyletswyddau penodol

- 7.9 Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn ateb unrhyw rai o'i ddyletswyddau penodol, gallai wynebu camau gorfodi gan y CRE o dan adran 71D o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.
- 7.10 Os yw'r CRE wedi'i fodloni bod yr awdurdod cyhoeddus wedi methu (neu ei fod yn methu) ag ateb unrhyw rai o'r dyletswyddau penodol, fe all y CRE gyhoeddi 'hysbysiad cydymffurfio' i'r awdurdod hwnnw. Bydd yr hysbysiad hwn yn datgan bod rhaid i'r awdurdod ateb ei ddyletswydd a dweud wrth y CRE, o fewn 28 o ddiwrnodau, yr hyn y mae wedi'i wneud, neu mae'n bwriadu ei wneud i ateb ei ddyletswydd.
- 7.11 Yn yr hysbysiad cydymffurfio, gall y CRE ofyn i'r awdurdod roi iddo wybodaeth ysgrifenedig sy'n dangos iddo ateb ei ddyletswydd. Bydd yr hysbysiad yn nodi erbyn pryd y dylai'r CRE dderbyn y wybodaeth. Ni all y CRE ofyn am fwy o wybodaeth na'r hyn y byddai'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei ddarparu mewn achos Uchel Lys yn Lloegr, neu yn Llys Sesiynau'r Alban.
- 7.12 Os yw'r CRE o'r farn dri mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad cydymffurfio, bod yr awdurdod dal heb ateb un o'i ddyletswyddau penodol y cyfeirir ato yn yr hysbysiad, caiff y CRE wneud cais i'r llys sirol (yn Lloegr) neu i lys y siryf (yn yr Alban) am orchymyn i ufuddhau i'r hysbysiad.

- 7.13 Os yw'r hysbysiad cydymffurfio'n dweud bod rhaid i'r awdurdod ddarparu gwybodaeth, ac nad yw wedi ei wneud o fewn yr amser a nodwyd - neu mae'r CRE yn credu na fydd yr awdurdod yn darparu'r wybodaeth - gall y CRE wneud cais i'r llys sirol (yn Lloegr) neu i lys y siryf (yn yr Alban) am orchymyn yn dweud ei bod yn rhaid i'r awdurdod ddarparu'r wybodaeth berthnasol.
- 7.14 Caiff y llys sirol neu lys y siryf ganiatáu'r gorchymyn gyda'r amodau y gwnaeth y CRE gais amdanynt neu gydag amodau mwy cyfyngedig. Os bydd y llys yn gwneud gorchymyn ac nad yw'r awdurdod yn ei barchu, gall y llys ddyfarnu bod yr awdurdod yn dirmygu'r llys.

Gwahaniaethu anghyfreithlon

- 7.15 Mae'r ddeddf yn rhoi'r hawl i unigolion gymryd camau cyfreithiol yn erbyn gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r CRE gymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhai achosion o wahaniaethu'n anghyfreithlon. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys y pŵer i gynnal archwiliadau ffurfiol (gweler yr eirfa).

Codau ymarfer y CRE

- 7.16 Mae'r côd hwn a chodau statudol eraill a gyhoeddir gan y CRE o dan y Ddeddf yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn llys. Disgwylir i lys ystyried y côd ymarfer os yw'n berthnasol i unrhyw fater y mae'r llys yn penderfynu arno. Nid oes rhaid i gyrff cyhoeddus ddilyn y canllawiau yn y côd ymarfer hwn. Fodd bynnag, disgwylir iddynt ateb y ddyletswydd gyffredinol ac unrhyw ddyletswyddau penodol sydd ganddynt.

Rhan

A large, stylized, light-colored letter 'V' graphic that serves as a background for the word 'Rhan'. The 'V' has a wide top and tapers to a point at the bottom.

Atodiadau

Atodiad 1

**Awdurdodau cyhoeddus a rwymir
gan y ddyletswydd gyffredinol****(ATODLEN 1A O DDEDDF CYSYLLTIADAU HILIO 1976)****Gweinidogion y Goron ac
adrannau'r Llywodraeth**

- (1) Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth
- (2) Nid yw is-baragraff (1) yn cynnwys y Gwasanaeth Diogelwch, y Gwasanaeth Cudd-ymchwil na Phencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth

Gweinyddiaeth yr Alban

- (1) Deilydd swydd yng Ngweinyddiaeth yr Alban (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 126(7)(a) Deddf yr Alban 1998)
- (2) Aelodau o staff Gweinyddiaeth yr Alban (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 126(7)(b) o'r Ddeddf honno)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- (1) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- (2) Is-lywodraeth y Cynulliad fel a ddiffinnir gan adran 99(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Lluoedd Arfog

Unrhyw un o luoedd llyngesol, milwrol neu awyrlu y Goron

**Gwasanaeth Iechyd
Cenedlaethol: Cymru a Lloegr**

Awdurdod Iechyd a sefydlwyd o dan adran 8 Deddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 1977

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 5 Deddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a Gofal yn y Gymuned 1990

Ymddiriedolaeth gofal cychwynnol a sefydlwyd o dan adran 16A o'r Ddeddf honno

Awdurdod iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Ddeddf honno

**Gwasanaeth Iechyd
Cenedlaethol: Yr Alban**

Bwrdd Iechyd sefydledig o dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (yr Alban) 1978

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 12A o'r Ddeddf honno

Bwrdd Iechyd Arbennig sefydledig o dan adran 2 o'r Ddeddf honno

Llywodraeth leol

Corfforaeth gorfforedig a sefydlwyd yn dilyn gorchymyn o dan adran 67 Deddf Llywodraeth Leol 1985 (trosglwyddiad swyddogaethau i olynwyr cyrff gweddilliol, ac ati)

Corfforaeth gorfforedig a sefydlwyd yn dilyn gorchymyn o dan adran 22 Deddf Llywodraeth Leol 1992 (cyrff gweddilliol)

Awdurdod y Llynnoedd a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Llynnoedd Norfolk a Suffolk 1988

Unrhyw ymddiriedolwyr siarter sefydledig o dan adran 246 o'r Ddeddf honno

Cyngor Cyffredin Dinas Llundain yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod lleol neu awdurdod iechyd porthladd

Cyngor cymuned a sefydlwyd o dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1973

Cyngor sefydledig o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac ati (yr Alban) 1994

Cyngor Ynysoedd Scilly

Awdurdod tân sefydledig drwy gynllun cyfuno o dan adran 5 neu 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947

Awdurdod Llundain Fawr

Bwrdd draeniad mewnol sy'n parhau mewnbodolaeth yn rhinwedd adran 1 o'r Ddeddf Tirddraeniad 1991

Cyd-awdurdod a sefydlwyd o dan Adran IV Deddf Llywodraeth Leol 1985 (gwasanaethau tân, amddiffyn gwladol a thrafnidiaeth)

Cyd-awdurdod a sefydlwyd o dan adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 1992

Cyd-fwrdd sy'n parhau mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 263(1) o'r Ddeddf honno

Cyd-fwrdd o fewn ystyr adran 235(1) Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1973

Cyd-bwyllgor sefydledig yn unol ag adran 102(1)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972

Cyd-fwrdd cynllunio sefydledig ar gyfer ardal yng Nghymru y tu allan i Barc Cenedlaethol drwy orchymyn o dan adran 2(1B) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Bwrdd trwyddedu sefydledig o dan adran 1 Deddf Trwyddedu (yr Alban) 1976

Awdurdod lleol (o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 1972), yn benodol (a) yn Lloegr, cyngor sir, cyngor bwrdeistref Llundain, cyngor dosbarth neu gyngor plwyf; (b) yng Nghymru, cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned

Bwrdd prawf lleol a sefydlwyd o dan adran 4 Deddf Cyfiawnder am Droseddau a Gwasanaethau'r Llys 2000

Asiantaeth Datblygu Llundain

